- (b) an election held under section 10 of the Government of Wales Act 2006 (elections for Senedd constituency vacancies);
- (c) a local government election in Wales;

"devolved Welsh referendum" means a referendum held under Part 2 of the Local Government Act 2000 or Part 4 of the Local Government (Wales) Measure 2011 (referendums relating to local authority executive arrangements);

"relevant Senedd body" means the body designated under paragraph 16A(5)."

(7) Mae Atodlen [Atodlen newydd] yn cynnwys diwygiadau pellach sy'n ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol'.

## **Jeremy Miles**

Section 40, page 20, line 18, leave out 'Part 3 (sections 10 to 28), but, other than section 27 (which takes effect on Royal Assent), it has' and insert 'in Part 3, sections 10 to 26 and 28, but those provisions have'.

Adran 40, tudalen 20, llinell 17, hepgorer ‘Rhan 3 (adrannau 10 i 28) ond, heblaw yn adran 27 (sy’n cael effaith ar y diwrnod y mae’n cael y Cydsyniad Brenhinol), mae iddi’ a mewnosoder ‘yn Rhan 3, adrannau 10 i 26 ac 28, ond mae i’r darpariaethau hynny’.

### **Jeremy Miles**

Section 40, page 20, after line 27, insert –

- ‘( ) In Part 3, section 27 and Schedule [*new Schedule*] come into force on a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by statutory instrument.
- ( ) An order under subsection ( ) may include transitional, transitory or saving provision.’.

Adran 40, tudalen 20, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

- ‘( ) Yn Rhan 3, mae adran 27 ac Atodlen [*Atodlen newydd*] yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.
- ( ) Caiff gorchymyn o dan is-adran ( ) gynnwys darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.’.

### **Jeremy Miles**

Schedule 1, page 26, after line 34, insert a new Schedule –

‘SCHEDULE [ ]  
(*introduced by section* [new section])

#### ELECTORAL COMMISSION: FURTHER AMENDMENTS

*Representation of the People Act 1983 (c. 2)*

- 1 (1) Schedule 4A to the 1983 Act is amended as follows.
  - (2) In paragraph 14(1), after “code of practice” insert “for elections other than local government elections in Wales”.
  - (3) After paragraph 14 insert –
    - “14A(1) The Electoral Commission (“the Commission”) may prepare, and from time to time revise, a code of practice for local government elections in Wales giving –
      - (a) guidance as to the matters which do, or do not, fall within Part 1 or Part 2 of this Schedule;
      - (b) guidance (supplementing the definition in section 90ZA(3)) as to the cases or circumstances in which expenses are, or are not, to be regarded as incurred for the purposes of a candidate's election.
    - (2) Once the Commission have prepared a draft code under this paragraph, they must submit it to the Welsh Ministers for approval.

- (3) The Welsh Ministers may approve a draft code with or without modifications.
- (4) Once the Welsh Ministers have approved a draft code they must lay a copy of the draft, in the form in which they have approved it, before Senedd Cymru.
- (5) If the draft incorporates modifications, the Welsh Ministers must at the same time lay before Senedd Cymru a statement of their reasons for making them.
- (6) If, within the 40-day period, Senedd Cymru resolves not to approve the draft, the Welsh Ministers must take no further steps in relation to it.
- (7) If no such resolution is made within the 40-day period –
  - (a) the Welsh Ministers must issue the code in the form of the draft laid before Senedd Cymru,
  - (b) the code comes into force on the date appointed by the Welsh Ministers by order, and
  - (c) the Commission must arrange for the code to be published in such manner as the Commission think appropriate.
- (8) Sub-paragraph (6) does not prevent a new draft code from being laid before Senedd Cymru.
- (9) In this paragraph, “the 40-day period”, in relation to a draft code, means the period of 40 days beginning with the day on which the draft is laid before Senedd Cymru, no account being taken of any period during which Senedd Cymru is dissolved or is in recess for more than four days.
- (10) In this paragraph references to a draft code include a revised draft code.”

*Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41)*

2 The Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 is amended as follows.

3 (1) Section 6 is amended as follows.

(2) In subsection (3)(b), after “Scottish Parliament” insert “, Senedd Cymru”.

(3) In subsection (6) –

(a) in paragraph (a) –

(i) in sub-paragraph (i), at the end insert “other than those mentioned in paragraph (d) of that subsection”;

(ii) in sub-paragraph (ii), omit “or Wales”;

(b) in paragraph (b), omit “and those under Part II of the Local Government Act 2000”.

4 After section 6 insert –

**“6ZA Reviews of devolved electoral matters in Wales**

- (1) The Commission must keep the matters mentioned in subsection (2) under review, and must from time to time submit reports on those matters to the Welsh Ministers.
- (2) The matters are –
  - (a) general elections of Members of Senedd Cymru;
  - (b) elections under section 10 of the Government of Wales Act 2006 (elections for Senedd constituency vacancies);
  - (c) local government elections in Wales;
  - (d) referendums under Part 2 of the Local Government Act 2000 and Part 4 of the Local Government (Wales) Measure 2011 (referendums relating to executive arrangements of local authorities in Wales);
  - (e) the law relating to the matters mentioned in each of paragraphs (a) to (d).
- (3) Subsection (4) applies if the Welsh Ministers request the Commission to review and report on any matter or matters for which provision is or could be made in an Act of Senedd Cymru (whether or not falling within subsection (2)).
- (4) The Commission must, within such time as the Welsh Ministers may specify –
  - (a) review the matters specified in the request, and
  - (b) submit a report on those matters to the Welsh Ministers.
- (5) The Commission must publish each report made under this section in such manner as the Commission may determine.”

5 In section 6C(3), after “6F” insert “or 6G”.

6 In section 6D(4), after “6F” insert “or 6G”.

7 (1) Section 6F is amended as follows.

(2) In subsection (1), after “section 6A” insert “, other than those specified in subsection (2) of section 6G,”.

(3) In subsection (10), after “this section” insert “and section 6G”.

8 After section 6F insert –

**“6G Code of practice on attendance of observers at devolved elections in Wales**

- (1) The Commission must prepare a code of practice on the attendance at elections specified in subsection (2) of –
  - (a) representatives of the Commission,
  - (b) accredited observers, and
  - (c) nominated members of accredited organisations.

- (2) The code must make provision about attendance at –
  - (a) general elections of Members of Senedd Cymru;
  - (b) elections under section 10 of the Government of Wales Act 2006 (elections for Senedd constituency vacancies);
  - (c) local government elections in Wales.
- (3) The code must in particular –
  - (a) specify the manner in which applications under sections 6C(1) and 6D(1) are to be made to the Commission;
  - (b) specify the criteria to be taken into account by the Commission in determining such applications;
  - (c) give guidance to relevant officers (within the meaning of section 6E) as to the exercise of the power conferred by subsection (1) of that section;
  - (d) give guidance to such officers as to the exercise of the power mentioned in subsection (2) of that section as it relates to a person having the permission mentioned in subsection (1) of that section;
  - (e) give guidance to such officers as to the exercise of any power under any enactment to control the number of persons present at any proceedings relating to an election as it relates to a person having such permission;
  - (f) give guidance to representatives of the Commission, accredited observers and nominated members of accredited organisations on the exercise of the rights conferred by sections 6A, 6B, 6C and 6D.
- (4) The code may make different provision for different purposes.
- (5) Before preparing the code, the Commission must consult the Welsh Ministers.
- (6) The Commission must lay the code before Senedd Cymru.
- (7) The Commission must publish the code (in such manner as the Commission may determine).
- (8) The following persons must have regard to the code in exercising any function conferred by section 6A, 6B, 6C, 6D or 6E in relation to an election or referendum specified in subsection (2) –
  - (a) the Commission;
  - (b) representatives of the Commission;
  - (c) relevant officers (within the meaning of section 6E).
- (9) The Commission may at any time revise the code.
- (10) Subsections (4) to (7) apply in relation to a revision of the code as they apply in relation to the code.”

- 9 (1) Section 9A is amended as follows.
- (2) In subsection (1)(a), after “relevant officers” insert “mentioned in subsection (2)”.
- (3) After subsection (5) insert—
- “(5A) In relation to electoral registration officers for areas in Wales, the reference to their functions in subsection (2)(a) is a reference to their functions in relation to registers of parliamentary electors.”
- (4) In subsection (6)—
- (a) in paragraph (a), at the end insert “other than one mentioned in paragraph (d) of that subsection”;
- (b) omit paragraph (d);
- (c) in paragraph (e), omit “or Wales”.
- (5) In subsection (7), omit paragraph (b).
- (6) In subsection (8)—
- (a) in the words before paragraph (a), after “sections” insert “9AA,”;
- (b) in paragraph (b), after “subsection (6)” insert “or section 9AA(6)”;
- (c) in paragraph (c), after “subsection (7)” insert “or section 9AA(7)”.
- 10 After section 9A insert—

**“9AA Performance standards for devolved elections and referendums in Wales**

- (1) The Commission may from time to time—
- (a) determine standards of performance for relevant officers mentioned in subsection (2), and
- (b) publish, in such form and in such manner as they consider appropriate, the standards so determined.
- (2) The standards of performance are such standards as the Commission think ought to be achieved by—
- (a) electoral registration officers for areas in Wales in the performance of their functions in relation to registers of local government electors;
- (b) returning officers in the administration of the elections specified in subsection (6);
- (c) counting officers in the administration of the referendums specified in subsection (7).
- (3) Before determining standards under subsection (1), the Commission must consult—
- (a) the Welsh Ministers, and
- (b) any other person they think appropriate.
- (4) The Commission may determine different standards for different descriptions of relevant officers.

- (5) When the Commission publish standards under subsection (1) they must send a copy to the Welsh Ministers who must lay a copy before Senedd Cymru.
- (6) The elections specified in this subsection are –
  - (a) a general election of Members of Senedd Cymru;
  - (b) an election under section 10 of the Government of Wales Act 2006 (elections for Senedd constituency vacancies);
  - (c) a local government election in Wales.
- (7) The referendums specified in this subsection are referendums under Part 2 of the Local Government Act 2000 or Part 4 of the Local Government (Wales) Measure 2011 (referendums relating to executive arrangements of local authorities in Wales)."

11 In section 9B, in subsections (1) and (4), after "9A(1)" insert "or 9AA(1)".

12 In section 9C(2) –

(a) in paragraph (b), after "9A(6)" insert "or 9AA(6)";

(b) in paragraph (c), after "9A(7)" insert "or 9AA(7)".

13 In section 13(12), after "met under" insert "paragraph 16A of Schedule 1 to this Act or".

14 (1) Schedule 1 is amended as follows.

(2) In paragraph 14 –

(a) in sub-paragraph (1) –

(i) in paragraph (b), omit "or 20(12)";

(ii) for paragraph (c) substitute –

"(c) met by the Senedd Commission under paragraph 16A of this Schedule or paragraph 6 of Schedule 2 to the Government of Wales Act 2006.";

(b) after sub-paragraph (6) insert –

"(6A) An estimate prepared under this paragraph for a financial year beginning on or after 1 April 2021 must not include income or expenditure that is attributable to the exercise of the Commission's functions in relation to devolved Welsh elections and devolved Welsh referendums (as to which, see paragraph 16A)."

(3) In paragraph 15, after sub-paragraph (5) insert –

"(6) A plan prepared under this paragraph for a period beginning on or after 1 April 2021 must not include aims, objectives or estimated requirements for the exercise of the Commission's functions in relation to devolved Welsh elections and devolved Welsh referendums (as to which, see paragraph 16B)."

(4) In paragraph 20, after sub-paragraph (1) insert –

"(1A) The reference in sub-paragraph (1) to the Commission's functions does not include the Commission's functions in relation to devolved



Welsh elections or devolved Welsh referendums.”.

Tudalen 26, ar ôl llinell 35, mewnosoder atodlen newydd –

‘ATODLEN [ ]  
(a gyflwynir gan adran [adran newydd])

#### Y COMISIWN ETHOLIADOL: DIWYGIADAU PELLACH

*Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2)*

- 1 (1) Mae Atodlen 4A i Ddeddf 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mharagraff 14(1), ar ôl “code of practice” mewnosoder “for elections other than local government elections in Wales”.
- (3) Ar ôl paragraff 14 mewnosoder –
- “14A(1) The Electoral Commission (“the Commission”) may prepare, and from time to time revise, a code of practice for local government elections in Wales giving –
- (a) guidance as to the matters which do, or do not, fall within Part 1 or Part 2 of this Schedule;
- (b) guidance (supplementing the definition in section 90ZA(3)) as to the cases or circumstances in which expenses are, or are not, to be regarded as incurred for the purposes of a candidate's election.
- (2) Once the Commission have prepared a draft code under this paragraph, they must submit it to the Welsh Ministers for approval.
- (3) The Welsh Ministers may approve a draft code with or without modifications.
- (4) Once the Welsh Ministers have approved a draft code they must lay a copy of the draft, in the form in which they have approved it, before Senedd Cymru.
- (5) If the draft incorporates modifications, the Welsh Ministers must at the same time lay before Senedd Cymru a statement of their reasons for making them.
- (6) If, within the 40-day period, Senedd Cymru resolves not to approve the draft, the Welsh Ministers must take no further steps in relation to it.
- (7) If no such resolution is made within the 40-day period –
- (a) the Welsh Ministers must issue the code in the form of the draft laid before Senedd Cymru,
- (b) the code comes into force on the date appointed by the Welsh Ministers by order, and
- (c) the Commission must arrange for the code to be published in

such manner as the Commission think appropriate.

- (8) Sub-paragraph (6) does not prevent a new draft code from being laid before Senedd Cymru.
- (9) In this paragraph, “the 40-day period”, in relation to a draft code, means the period of 40 days beginning with the day on which the draft is laid before Senedd Cymru, no account being taken of any period during which Senedd Cymru is dissolved or is in recess for more than four days.
- (10) In this paragraph references to a draft code include a revised draft code.”

*Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41)*

2 Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

3 (1) Mae adran 6 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3)(b), ar ôl “Scottish Parliament” mewnosoder “, Senedd Cymru”.

(3) Yn is-adran (6) –

(a) ym mharagraff (a) –

(i) yn is-baragraff (i), ar y diwedd mewnosoder “other than those mentioned in paragraph (d) of that subsection”;

(ii) yn is-baragraff (ii), hepgorer “or Wales”;

(b) ym mharagraff (b), hepgorer “and those under Part II of the Local Government Act 2000”.

4 Ar ôl adran 6 mewnosoder –

#### **“6ZA Reviews of devolved electoral matters in Wales**

(1) The Commission must keep the matters mentioned in subsection (2) under review, and must from time to time submit reports on those matters to the Welsh Ministers.

(2) The matters are such matters as the Commission may from time to time determine relating to –

(a) general elections of Members of Senedd Cymru;

(b) elections under section 10 of the Government of Wales Act 2006 (elections for Senedd constituency vacancies);

(c) local government elections in Wales;

(d) referendums under Part 2 of the Local Government Act 2000 and Part 4 of the Local Government (Wales) Measure 2011 (referendums relating to executive arrangements of local authorities in Wales);

(e) the law relating to the elections and referendums mentioned in paragraphs (a) to (d).

- (3) Subsection (4) applies if the Welsh Ministers request the Commission to review and report on any matter or matters for which provision is or could be made in an Act of Senedd Cymru (whether or not falling within subsection (2)).
- (4) The Commission must, within such time as the Welsh Ministers may specify –
  - (a) review the matters specified in the request, and
  - (b) submit a report on those matters to the Welsh Ministers.
- (5) The Commission must publish each report made under this section in such manner as the Commission may determine.”

5 Yn adran 6C(3), ar ôl “6F” mewnosoder “or 6G”.

6 Yn adran 6D(4), ar ôl “6F” mewnosoder “or 6G”.

7 (1) Mae adran 6F wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), ar ôl “section 6A” mewnosoder “, other than those specified in subsection (2) of section 6G,”.

(3) Yn is-adran (10), ar ôl “this section” mewnosoder “and section 6G”.

8 Ar ôl adran 6F mewnosoder –

**“6G Code of practice on attendance of observers at devolved elections in Wales**

- (1) The Commission must prepare a code of practice on the attendance at elections specified in subsection (2) of –
  - (a) representatives of the Commission,
  - (b) accredited observers, and
  - (c) nominated members of accredited organisations.
- (2) The code must make provision about attendance at –
  - (a) general elections of Members of Senedd Cymru;
  - (b) elections under section 10 of the Government of Wales Act 2006 (elections for Senedd constituency vacancies);
  - (c) local government elections in Wales.
- (3) The code must in particular –
  - (a) specify the manner in which applications under sections 6C(1) and 6D(1) are to be made to the Commission;
  - (b) specify the criteria to be taken into account by the Commission in determining such applications;
  - (c) give guidance to relevant officers (within the meaning of section 6E) as to the exercise of the power conferred by subsection (1) of that section;

- (d) give guidance to such officers as to the exercise of the power mentioned in subsection (2) of that section as it relates to a person having the permission mentioned in subsection (1) of that section;
  - (e) give guidance to such officers as to the exercise of any power under any enactment to control the number of persons present at any proceedings relating to an election as it relates to a person having such permission;
  - (f) give guidance to representatives of the Commission, accredited observers and nominated members of accredited organisations on the exercise of the rights conferred by sections 6A, 6B, 6C and 6D.
- (4) The code may make different provision for different purposes.
  - (5) Before preparing the code, the Commission must consult the Welsh Ministers.
  - (6) The Commission must lay the code before Senedd Cymru.
  - (7) The Commission must publish the code (in such manner as the Commission may determine).
  - (8) The following persons must have regard to the code in exercising any function conferred by section 6A, 6B, 6C, 6D or 6E in relation to an election specified in subsection (2) –
    - (a) the Commission;
    - (b) representatives of the Commission;
    - (c) relevant officers (within the meaning of section 6E).
  - (9) The Commission may at any time revise the code.
  - (10) Subsections (4) to (7) apply in relation to a revision of the code as they apply in relation to the code.”
- 9
- (1) Mae adran 9A wedi ei diwygio fel a ganlyn.
  - (2) Yn is-adran (1)(a), ar ôl “relevant officers” mewnosoder “mentioned in subsection (2)”.
  - (3) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder –
    - “(5A) In relation to electoral registration officers for areas in Wales, the reference to their functions in subsection (2)(a) is a reference to their functions in relation to registers of parliamentary electors.”
  - (4) Yn is-adran (6) –
    - (a) ym mharagraff (a), ar y diwedd mewnosoder “other than one mentioned in paragraph (d) of that subsection”;
    - (b) hepgorer paragraff (d);
    - (c) ym mharagraff (e), hepgorer “or Wales”.
  - (5) Yn is-adran (7), hepgorer paragraff (b).
  - (6) Yn is-adran (8) –

- (a) yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl “sections” mewnosoder “9AA”;
- (b) ym mharagraff (b), ar ôl “subsection (6)” mewnosoder “or section 9AA(6)”;
- (c) ym mharagraff (c), ar ôl “subsection (7)” mewnosoder “or section 9AA(7)”.

10 Ar ôl adran 9A mewnosoder –

**“9AA Performance standards for devolved elections and referendums in Wales**

- (1) The Commission may from time to time –
  - (a) determine standards of performance for relevant officers mentioned in subsection (2), and
  - (b) publish, in such form and in such manner as they consider appropriate, the standards so determined.
- (2) The standards of performance are such standards as the Commission think ought to be achieved by –
  - (a) electoral registration officers for areas in Wales in the performance of their functions in relation to registers of local government electors;
  - (b) returning officers in the administration of the elections specified in subsection (6);
  - (c) counting officers in the administration of the referendums specified in subsection (7).
- (3) Before determining standards under subsection (1), the Commission must consult –
  - (a) the Welsh Ministers, and
  - (b) any other person they think appropriate.
- (4) The Commission may determine different standards for different descriptions of relevant officers.
- (5) When the Commission publish standards under subsection (1) they must send a copy to the Welsh Ministers who must lay a copy before Senedd Cymru.
- (6) The elections specified in this subsection are –
  - (a) a general election of Members of Senedd Cymru;
  - (b) an election under section 10 of the Government of Wales Act 2006 (elections for Senedd constituency vacancies);
  - (c) a local government election in Wales.
- (7) The referendums specified in this subsection are referendums under Part 2 of the Local Government Act 2000 or Part 4 of the Local Government (Wales) Measure 2011 (referendums relating to executive arrangements of local authorities in Wales).”

11 Yn adran 9B, yn is-adrannau (1) a (4), ar ôl “9A(1)” mewnosoder “or 9AA(1)”.

- 12 Yn adran 9C(2) –
- (a) ym mharagraff (b), ar ôl “9A(6)” mewnosoder “or 9AA(6)”;
  - (b) ym mharagraff (c), ar ôl “9A(7)” mewnosoder “or 9AA(7)”.
- 13 Yn adran 13(12), ar ôl “met under” mewnosoder “paragraph 16A of Schedule 1 to this Act or”.
- 14 (1) Mae Atodlen 1 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mharagraff 14 –
- (a) yn is-baragraff (1) –
    - (i) ym mharagraff (b), hepgorer “or 20(12)”;
    - (ii) yn lle paragraff (c) rhodder –
      - “(c) met by the Senedd Commission under paragraph 16A of this Schedule or paragraph 6 of Schedule 2 to the Government of Wales Act 2006.”;
  - (b) ar ôl is-baragraff (6) mewnosoder –
    - “(6A) An estimate prepared under this paragraph for a financial year beginning on or after 1 April 2021 must not include income or expenditure that is attributable to the exercise of the Commission’s functions in relation to devolved Welsh elections and devolved Welsh referendums (as to which, see paragraph 16A).”
- (3) Ym mharagraff 15, ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder –
- “(6) A plan prepared under this paragraph for a period beginning on or after 1 April 2021 must not include aims, objectives or estimated requirements for the exercise of the Commission’s functions in relation to devolved Welsh elections and devolved Welsh referendums (as to which, see paragraph 16B).”
- (4) Ym mharagraff 20, ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder –
- “(1A) The reference in sub-paragraph (1) to the Commission’s functions does not include the Commission’s functions in relation to devolved Welsh elections or devolved Welsh referendums.”.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Vaughan Gething AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/VG/0420/19

Dai Lloyd AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

30 Awst 2019

Annwyl Dai,

### **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf yn nodi'r materion y cytunais roi rhagor o wybodaeth amdanynt yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 11 Gorffennaf. Mae'n bleser gennyf gynnwys yr wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r meysydd hyn, a darparu mwy o eglurder ynghylch nifer o feysydd eraill y cyfeiriwyd atynt yn ystod sesiwn y Pwyllgor. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth o gymorth i'r Pwyllgor gyda'r gwaith craffu sy'n mynd rhagddo.

Mae cynllun Llywodraeth Cymru, sef *Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, yn amlinellu sut y bydd ansawdd yn allweddol i sicrhau bod y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn addas ar gyfer y dyfodol, ac yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu mai'r angen i wella ansawdd fydd y cysyniad canolog sy'n sail i ddarpariaethau'r Bil.

Er hynny, nid yw'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ond yn rhan o'r stori gyfan. Fel yr eglurais wrth y Pwyllgor, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu y mae ei arfer wedi ei hen dderbyn o gynnwys darpariaethau yn y Bil dim ond os nad yw'r pwerau deddfu sylfaenol sy'n bodoli ar y pryd yn ddigon i'n galluogi i gyflawni bwriad y polisi. Felly, dylid edrych ar y camau, yr ydym ni fel Llywodraeth yn eu cymryd i wella ansawdd gwasanaethau, fel pecyn o fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith mewn deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth, cyfarwyddydau, a chanllawiau.

Yn y Papur Gwyn, *Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol, Ansawdd a Llywodraethiant ym maes Iechyd a Gofal yng Nghymru*, ymgynghorwyd ar nifer o gynigion y mae gwella ansawdd yn ganolog iddynt. Mae **Atodiad 1** yn nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo i weithredu'r cynigion nad ydynt yn ymddangos ar wyneb y Bil gan ein bod yn gallu defnyddio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ein pwerau presennol i sicrhau'r newid angenrheidiol. Yr eithriadau i hyn fydd unrhyw newidiadau sylfaenol i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

## **Darpariaethau'r Bil**

### Dyletswydd Ansawdd

Gan droi at y darpariaethau yn y Bil, mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r dystiolaeth o blaid cyflwyno dyletswydd ansawdd newydd ehangach<sup>1</sup> a'r manteision a ddaw i unigolion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a chyrrff y GIG<sup>2</sup> yn sgil gweithredu'r ddyletswydd newydd honno. Drwy wella ansawdd, daw manteision i gleifion fel poblogaeth ac fel unigolion.

Fel y trafodwyd, mae'r ddyletswydd newydd yn ehangach ei chwmpas ac yn wahanol ei natur i'r ddyletswydd ansawdd bresennol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Mae'r ddyletswydd newydd yn mynd y tu hwnt i ffocws y ddyletswydd bresennol ar safonau gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r unigolyn, sydd braidd yn gul. O ran materion iechyd, bydd yn gofyn i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau mewn modd penodol, gan y bydd yn rhaid iddynt ystyried sut y gallant wella ansawdd gwasanaethau iechyd wrth wneud eu holl benderfyniadau. Drwy ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, daw ystyriaethau gwella ansawdd yn rhan annatod o'u prosesau penderfynu.

Fel yr eglurwyd wrth y Pwyllgor, bydd gofyn i'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd gydymffurfio â hi mewn modd sy'n ymwneud â'r system gyfan, yn seiliedig ar y diffiniad rhyngwladol, sy'n nodi chwe pharth<sup>3</sup> ar gyfer ansawdd gofal iechyd a gafodd eu cynnig gan y Sefydliad Meddygaeth.

Fel yr wyf wedi dweud wrth y Pwyllgor, rydym yn bwriadu llunio canllawiau i helpu cyrrff y GIG i weithredu'r ddyletswydd hon. Bydd natur y canllawiau hyn yn debyg mewn llawer ffordd i'r rhai a luniwyd i helpu i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er enghraifft, byddant yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos i ddangos sut y gallai cyrrff y GIG ddangos eu bod wedi defnyddio'r egwyddorion ansawdd er mwyn sicrhau gwelliant. Amgaeir amlinelliad drafft o'r canllawiau yn **Atodiad 2**.

### Dyletswydd gonestrwydd

Bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn adeiladu ar y gwaith y mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi ei gyflawni eisoes i sicrhau bod y rheini sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yn gweithredu mewn modd agored a gonest pan fo rhywbeth yn mynd o'i le, ac y byddant yn cefnogi'r camau a gymerir i weithredu system sy'n seiliedig ar ddysgu a gwella.

Yn y Memorandwm Esboniadol, rydym wedi egluro pam fod angen dyletswydd gonestrwydd sefydliadol, ynghyd â'r amcanion polisi yr ydym yn awyddus i'w cyflawni drwy ei chyflwyno, a diben y ddeddfwriaeth<sup>4</sup>. Mae tystiolaeth yn dangos bod gweithredu mewn modd mwy

---

<sup>1</sup> Gweler tudalennau 10-16 a 50-51.

<sup>2</sup> Gweler tudalennau 66-67.

<sup>3</sup> Gweler tudalen 11.

<sup>4</sup> Gweler tudalennau 17-23.

agored, tryloyw, a gonest yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uwch<sup>5</sup>. Fodd bynnag, mae hefyd ystyriaethau dynol pur y tu ôl i'm penderfyniad i gyflwyno'r ddyletswydd hon. Rydym yn gwybod bod mwyafrif llethol y darparwyr ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yn awyddus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n ddiogel ac sy'n arfer caredigrwydd wrth ymwneud â'r claf. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol ar yr un pryd y gallai rhywbeth weithiau mynd o'i le; a bod hyn yn digwydd o bryd i'w gilydd er gwaethaf y bwriad i'r gwrthwyneb; a hefyd bod pobl weithiau'n cael eu niweidio o ganlyniad.

Ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, mae gan ddefnyddiwr y gwasanaethau berthynas barhaus â'r sawl sy'n darparu ei ofal a'i driniaeth. Mae ffordd y darparwr o ymateb pan fo rhywbeth yn mynd o'i le yn gallu cael effaith enfawr ar ansawdd y berthynas hanfodol sydd rhyngddo a'r claf, ac ar ymddiriedaeth y defnyddiwr yn y sefydliad. Drwy roi dyletswydd gonestrwydd ar ddarparwyr y GIG, bydd yn bosibl cryfhau ac ehangu'r fframwaith ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r unigolyn a'i gynorthwyo os bydd rhywbeth wedi mynd o'i le, a bydd hynny'n helpu i gynnal yr integriti sy'n rhan hanfodol o'r berthynas rhwng y darparwr a'r claf.

Rwyf eisoes wedi rhoi Datganiad o Fwriad y Polisi i'r Pwyllgor ar gyfer y rheoliadau sy'n ofynnol yn adran 4 o'r Bil, a fydd yn gosod gweithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd<sup>6</sup>:

Yn ogystal â hyn, amgaeir amlinelliad drafft o'r canllawiau statudol yn **Atodiad 3**, sef canllawiau a fydd yn cael eu datblygu a'u chyhoeddi i helpu i gyflwyno'r ddyletswydd. Cynhelir ymgynghoriad ar y rheoliadau, a bydd y Cynulliad yn craffu arnynt. Caiff y gwaith ei ddatblygu gyda chymorth gweithgor a fydd yn cynnwys clinigwyr, a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, yn ogystal â chynrychiolwyr llebyg.

Hefyd yn **Atodiad 4**, rwyf wedi disgrifio hynt y ddyletswydd yn Lloegr, yn yr Alban, ac yn y maes gofal cymdeithasol yma yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y rhesymeg y tu ôl i'r dull gweithredu a fabwysiedir yn y Bil.

## Sanctsiynau

Yn sesiynau'r Pwyllgor hyd yn hyn, rydym hefyd wedi trafod pam nad wyf yn cynnig cyflwyno trefniadau gweithredu sanctsiynau pwrpasol i gefnogi'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd. Y rheswm y tu ôl i'r penderfyniad hwn yw ein nod o greu diwylliant lle y mae gwella ansawdd, ac ethos o fod yn agored a thryloyw a mynd ati i ddysgu a gwella, yn sylfaenol bwysig. Rwyf o blaid rhoi pwyslais ar greu'r amgylchedd iawn ar gyfer newid, a'r systemau arweinyddiaeth priodol, sy'n ehangach na dim ond cymhellion ariannol a sanctsiynau llym. Bydd yr adroddiadau blynyddol gorfodol, a fydd yn dweud sut mae cyrff a darparwyr y GIG wedi ymateb i'r dyletswyddau, yn ychwanegu at y ffynonellau gwybodaeth, sy'n bodoli eisoes, ac a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i asesu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a sut maent yn cael eu

<sup>5</sup> Sefydliad Iechyd y Byd, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a Banc y Byd. *Delivering quality health services: a global imperative for universal health coverage*. [Rhyngwrwyd]. Geneva; 2018. Ar gael o:

<https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/272465/9789241513906-eng.pdf?ua=1>

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gwir Anrh. Jeremy Hunt AS. *Good care costs less* [Rhyngwrwyd]. Ar GOV.UK. 2014 [dyfynnwyd 1 Ebrill 2019]. Ar gael o:

<https://www.gov.uk/government/speeches/good-care-costs-less>

<sup>6</sup><http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s90279/Datganiad%20o%20Fwriad%20y%20Polisi.pdf>

llywodraethu. Bydd unrhyw bryderon yn cael eu codi a'u hystyried o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG.

Yn y cyd-destun ehangach, un o'r camau gweithredu yn y cynllun *Cymru Iachach* yw cyflwyno cyfres o ddulliau i sicrhau newid. Mae'r rhain yn cael eu datblygu gyda'r nod o greu'r amodau i newid systemau ac ymddygiad.

Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Cefnogi Gwelliannau mewn Byrddau Iechyd'<sup>7</sup>, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn cydnabod bod angen i fyrddau iechyd ddefnyddio dull gweithredu sy'n rhoi sylw i'r system gyfan er mwyn gwella perfformiad (yn ei ystyr ehangach), gyda chymorth amodau ac amgylchedd sy'n gallu hwyluso'r gwaith o sicrhau newid.

Bydd y dysgu sy'n deillio o'r adroddiad yn cael ei ystyried wrth i'r cynigion ar gyfer sicrhau newid esblygu a chael eu gweithredu ochr yn ochr â sefydlu Gweithrediaeth y GIG.

### Corff Llais y Dinesydd

O ran darpariaethau ar gyfer Corff Llais y Dinesydd, treuliyd amser yn y Pwyllgor yn ystyried strwythur presennol Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, penodiadau i'r Bwrdd, a sut mae aelodau gwirfoddol yn cael eu penodi i Gynghorau Iechyd Cymuned lleol. Gwnaed cymariaethau a gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y byddai aelodau Bwrdd corff arfaethedig newydd Llais y Dinesydd yn cael eu penodi, a pha drefniadau a fydd ar waith i recriwtio aelodau gwirfoddol. Mae **Atodiad 5** yn crynhoi'r trefniadau presennol ar gyfer y Cynghorau Iechyd Cymuned, a'r rhai a gynigir ar gyfer Corff Llais y Dinesydd.

Hefyd, fel rhan o'n hymrwymiad i egluro wrth y Pwyllgor ba ganllawiau yr ydym yn bwriadu eu cyhoeddi, yn **Atodiad 6** amgaeaf amlinelliad drafft o'm prif ddisgwyliadau o ran sut y bydd Corff Llais y Dinesydd yn gweithredu. Mae'r amlinelliad hwnnw'n ystyried yn llawn y ffaith y bydd y corff newydd, oherwydd natur y swyddogaethau y bydd yn eu cyflawni, yn gweithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

### **Amserlenni gweithredu**

Os caiff ei basio, disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2020.

Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym yn bwriadu cychwyn y darpariaethau ar gyfer dod â'r ddyletswydd ansawdd newydd i rym yn yr haf 2021. Bydd hyn yn rhoi digon o amser inni sicrhau bod y canllawiau a amlinellir yn Atodiad 2 yn cael eu datblygu mewn partneriaeth; eu bod yn addas ar gyfer eu diben; a bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant y mae ei angen i weithredu'r ddyletswydd yn llwyddiannus. Ein bwriad hefyd yw cychwyn y pŵer i benodi Is-gadeiryddion ar Ymddiriedolaethau'r GIG yr adeg honno.

O ran y ddyletswydd gonestrwydd, rydym yn gweithio tuag at ddyddiad cychwyn yng ngwanwyn 2022. Cyn y gallwn ddod â'r ddyletswydd i rym, byddwn yn paratoi rheoliadau'r

---

<sup>7</sup> <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/Supporting-improvements-in-health-boards.pdf>

weithdrefn gonestrwydd, ac fel yr eglurir yn Atodiad 3, byddwn hefyd yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i reoliadau presennol Gweithio i Wella. Unwaith yn rhagor, bydd angen inni sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol, a bod y canllawiau statudol wedi cyrraedd eu fersiwn derfynol, cyn cychwyn y darpariaethau hyn. Fel y dywedwyd eisoes yn y Memorandwm Esboniadol, ein bwriad polisi yw dwyn ymlaen reoliadau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 i osod dyletswydd gonestrwydd ar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol rheoleiddiedig yng Nghymru. Byddwn yn ymgynghori ar y rhain hefyd, a'r bwriad yw dod â nhw i rym ar yr un pryd â'r darpariaethau gonestrwydd yn y Bil.

O ran Corff Llais y Dinesydd, y bwriad yw sefydlu'r corff newydd fel y daw i effaith gweithredol o fis Hydref 2021. Fel sy'n digwydd pan fydd unrhyw gorff newydd yn cael ei sefydlu, bydd yn cymryd amser i ymgysylltu â staff ynglŷn â throsglwyddiadau staff, cael hyd i lety priodol, a dilyn y broses gaffael briodol ar gyfer contractau, gan gynnwys rhai ar gyfer TGCh a gwasanaethau.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth bellach i'r Pwyllgor maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Meysydd yr ymgynghorwyd arnynt yn y Papur Gwyn ond na chawsant eu dwyn ymlaen yn y Bil	Sut fydd hyn yn cael ei ddwyn ymlaen?
<p>Aelodaeth a chyfansoddiad y bwrdd iechyd; a rôl ysgrifennydd y bwrdd</p>	<p>Mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG yn gweithio mewn byd gwahanol bellach o gymharu â phan gawsant eu sefydlu am y tro cyntaf. Mae cynllun hirdymor “Cymru Iachach” yn ceisio hybu ac ategu'r system gynllunio bresennol (IMTP) system, gyda'r bwriad o drawsnewid y ffordd mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu cyflenwi yng Nghymru. Mae deddfwriaeth fel Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn braenaru'r tir ar gyfer newid y ffordd o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru hefyd, a rhaid trefnu Byrddau GIG yn y ffordd orau i fodloni heriau'r dyfodol.</p> <p>Bydd angen diwygio'r rheoliadau a'r gorchmynion sefydlu presennol er mwyn cyflwyno newidiadau i aelodaeth a chyfansoddiad Bwrdd y GIG. Dylai strwythurau'r bwrdd adlewyrchu'r strwythurau sefydliadol a ddylai, yn eu tro, adlewyrchu beth mae gwasanaethau iechyd a gofal yn eu darparu ar gyfer cleifion, sut maent yn gwneud hynny, a sut mae cleifion yn cael gafael arnynt. Dylai unrhyw newidiadau i strwythurau bwrdd gael eu rheoli'n ofalus, fodd bynnag, rhag gwaethygu'r problemau rydyn ni'n ceisio eu hunioni. Felly, mae angen ystyried newidiadau i faint y byrddau a chyfansoddiad cyrff y GIG o fewn cyd-destun a systemau ehangach. Mae gwaith polisi pellach yn cael ei gynnal ar hyn gyda'r bwriad o ddatblygu cyfres o ddewisiadau i'w hystyried a'u trafod gyda sefydliadau partner. Hoffem symud pethau ymlaen trwy gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y broses o ddatblygu polisi ar gynigion y dyfodol. Wedyn, gallwn ystyried yr hyn sydd angen ei wneud, os unrhyw beth, o ran aelodaeth a chyfansoddiad y byrddau, gyda'r bwriad o gyflwyno unrhyw newidiadau angenrheidiol trwy ddeddfwriaeth eilaidd erbyn gwanwyn 2021. Bydd unrhyw newidiadau i'r rheoliadau'n destun Memorandwm Esboniadol ar wahân yn ogystal ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac ymgynghoriad.</p> <p>O ran Ysgrifenyddion Bwrdd y GIG, mae rôl Ysgrifennydd y Bwrdd yn hanfodol er mwyn cynnal a datblygiad parhaus fframwaith llywodraethu cadarn y byrddau, ac yn ffynhonnell cyngor a</p>

	<p>chymorth allweddol i'r Cadeirydd ac aelodau eraill y bwrdd. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gweithredu fel gwarchodwr llywodraethu da.</p> <p>Trwy ymgysylltu â'r GIG, rydyn ni'n ymchwilio i'r modd y gellir diwygio Rheolau Sefydlog Enghreifftiol er mwyn darparu rôl gliriach ar gyfer Ysgrifennydd y Bwrdd, cefnogi uniondeb y rôl ac atal y rôl rhag cael ei thanseilio mewn unrhyw ffordd. Rydym yn bwrw ymlaen â hyn gyda'r bwriad o gyflwyno unrhyw newidiadau yn 2020/21.</p>
<p>Diwygio rheoliadau ac archwiliadau'r Arolygiaethau/Gofal iechyd; a safonau cyffredin</p>	<p>Hoffem sicrhau bod system reoleiddio ac arolygu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei chysoni a'i diogelu at y dyfodol er mwyn rhoi'r sicrwydd perthnasol i gefnogi gwelliant mewn sefydliadau o safbwynt person-ganolog. Dylai bod dull cyson o arolygu ac archwilio ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a dderbyniwyd. Mae pobl yn disgwyl i arolygiaethau gydweithio lle mae gwasanaethau iechyd a gofal yn gorgyffwrdd â'i gilydd.</p> <p>Mae'r gwaith o gwmpasu'r gofynion deddfwriaethol wedi dechrau, a bydd yn dangos unrhyw fylchau rheoliadol ac yn ystyried y math o arolygiaeth/rheoleiddiwr sydd ei angen; boed yn un sy'n edrych yn llai manwl/canolbwyntio ar gydymffurfiaeth/cefnogi gwelliannau ac ati a sut y bydd y cyd-destun yn cydweddu â Cymru lachach a'r cynigion i integreiddio a'r syniad o sefydlu corff dinasyddion newydd. Er mwyn sicrhau bod y fframwaith ddeddfwriaethol yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion darpariaeth gwasanaeth iechyd sy'n esblygu'n barhaus, penderfynwyd y dylid ystyried y maes hwn ar wahân.</p> <p>Yn y cyfamser, bwriadwn ddefnyddio pwerau presennol i ddatblygu capasiti a galluoedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru bod yn dipyn, er mwyn sicrhau sefyllfa sy'n fwy cynaliadwy, fel ei bod yn barod i ymateb i unrhyw fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae gwaith eisoes ar droed i sicrhau hyn, a byddwn yn cynnal ymgynghoriad llawn ar unrhyw gynigion pellach.</p> <p>Fel rhan o hyn, gallwn ystyried eto a ddylid sefydlu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel corff annibynnol ac a ddylai uno gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, er mwyn helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach.</p>

<p>Trin cwynion ar y cyd</p>	<p>Roedd ymgynghoriad y Papur Gwyn yn nodi bod rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad o gynnal archwiliadau ar y cyd, ond mae'n ymddangos nad oedd llawer o'r ymatebwyr wedi deall y cynnig yn ymwneud â chwynion iechyd <u>a</u> gofal cymdeithasol.</p> <p>Bydd swyddogion yn ymgysylltu ymhellach â sefydliadau GIG Cymru, llywodraeth leol a chyrrff eraill er mwyn trafod ffyrdd o wneud y broses gwyno yn haws i bobl sydd â chwynion sy'n cwmpasu'r ddau faes.</p> <p>Yn arbennig, rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio pwerau deddfu presennol i alluogi unigolyn sy'n dymuno cwyno am faterion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i wneud un gŵyn yn unig er mwyn sbarduno'r ddwy weithdrefn.</p>
<p>Newid o ran gwasanaeth</p>	<p>Ym maes newid gwasanaeth, daeth gwaith pellach i'r casgliad bod modd cyflwyno cynigion dan bwerau presennol trwy ddefnyddio cymysgedd o ganllawiau a chyfarwyddiadau gweinidogol.</p> <p>Mae angen newid y canllawiau presennol yn sylweddol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol.</p> <p>Mae angen i'r polisi newid gwasanaeth newydd weithio yn y cyd-destun deddfwriaethol sy'n newid, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a darpariaethau'r Bil ar ansawdd a sefydlu Corff Llais y Dinesydd i gymryd lle'r cynghorau iechyd cymuned. Hefyd, bydd angen fframio'r polisi er mwyn ystyried argymhellion yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion "Cymru Iachach".</p> <p>Y bwriad yw dod â'r canllawiau newydd i rym wrth sefydlu'r Corff Llais y Dinesydd newydd yn ystod hydref 2021.</p>



**BIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (ANSAWDD AC YMGYSYLLTU) (CYMRU)**

**AMLINELLIAD DRAFFT: CANLLAW AR Y DDYLETSWYDD ANSAWDD AR GYFER  
CYRFF Y GIG**

**Cefndir**

Mae Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Answdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ("y Bil") yn cynnwys dyletswydd ansawdd ("y ddyletswydd") sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG – byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd arbennig – yng Nghymru arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau iechyd.

Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- (a) effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd;
- (b) diogelwch gwasanaethau iechyd;
- (c) profiad unigolion y darperir gwasanaethau iechyd ar eu cyfer.

Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, bydd angen i gyrff y GIG ddangos eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau wrth wneud penderfyniadau ar draws eu swyddogaethau ac, fel rhan o'r broses adrodd orfodol yn y Bil, bydd yn rhaid iddynt asesu i ba raddau y maent wedi arwain at wella canlyniadau. Golyga hyn y bydd yn rhaid i gyrff y GIG orfod dangos tystiolaeth ynghylch sut y mae'r camau a gymerwyd ganddynt wedi arwain at wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae hyn yn anelu at sicrhau 'dull system gyflawn' o ymdrin ag ansawdd, gan ddisodli'r ddyletswydd bresennol yn Adran 45(1) Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 sydd wedi'i dehongli mewn modd rhy gul fel pe bai'n ymwneud yn unig â gwasanaethau clinigol, a rhoi trefniadau sicrhau (rheoli) ar waith i fonitro hyn.

Bydd deddfu'r ddyletswydd ansawdd ehangach hon, sy'n cyd-fynd yn well â'r modd yr ydym eisiau i gyrff y GIG weithio bellach, yn cryfhau camau gweithredu a phenderfyniadau i sbarduno gwelliannau mewn ansawdd a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau i drigolion Cymru.

Ymhellach, bydd y ddeddf hon yn berthnasol i Weinidogion Cymru o safbwynt eu swyddogaethau cysylltiedig ag iechyd.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno amlinelliad drafft o'r meysydd hynny y byddem yn disgwyl i'r canllaw ar gyfer cyrff y GIG eu cwmpasu.

Er mai prif gynulleidfa'r canllaw hwn fydd y bobl y mae'n berthnasol iddynt, h.y. holl staff cyrff y GIG, yn cynnwys Aelodau Bwrdd, bydd y gwaith o'i ddatblygu'n cael ei lywio gan farn defnyddwyr gwasanaethau (a'r cyhoedd yn gyffredinol), a bydd yn cael ei ysgrifennu mewn modd a fydd yn ddealladwy iddynt.

**Cyflwyniad**

Bydd yr adran hon yn pennu cyd-destun cyffredinol y ddyletswydd newydd a'r modd y

bydd yn ysgogiad allweddol o ran helpu i wireddu'r disgwyliadau a'r weledigaeth a nodir yn *Cymru Iachach* a'r pwyslais hollbwysig ar sbarduno newid a gwelliant. Yn arbennig, 'dull system gyfan' a fydd yn deg, ac a fydd yn cyflwyno'r un gofal ansawdd da ac yn cyflawni canlyniadau mwy cyfartal i bawb yng Nghymru.

Yn arbennig, bydd yn disgrifio'r fframwaith ansawdd cyffredinol y mae'n ofynnol i gyrff ei gael er mwyn helpu i gyflawni a dangos hyn: cynllunio, gwella a rheoli (sicrhau) ansawdd.

Er mwyn i gyrff y GIG weithredu yn y ffordd y dymunir iddynt wneud, rhaid cael dealltwriaeth glir o'r ddyletswydd. Mae hyn yn cynnwys deall bod y ddeddf newydd yn ehangach na'r ddyletswydd bresennol yn Neddf 2003 a'i bod yn cyd-fynd yn well â'r modd yr ydym eisiau i gyrff y GIG weithio erbyn hyn. Bydd hyn yn cryfhau camau gweithredu a phenderfyniadau i sbarduno gwelliannau mewn ansawdd.

Yn benodol, bydd yr adran hon yn cynnig y canlynol:

- trosolwg o'r ddyletswydd;
- esbonio pam y mae'r ddyletswydd yn cael ei chyflwyno a'r amcanion polisi allweddol, yn cynnwys sut y mae'n helpu i sicrhau ffocws drwy'r holl system ar ansawdd a gwelliant parhaus;
- trosolwg lefel uchel o'r modd y mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar seilwaith presennol yn ymwneud â sicrhau ansawdd yn GIG Cymru;
- sut y bwriedir i'r ddyletswydd fod yn rhan o ddull ehangach a pharhaus Llywodraeth Cymru tuag at gael system iechyd a gofal cymdeithasol sydd bob amser yn anelu at wella ansawdd gwasanaethau, a thrwy hynny'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
- sut y mae'n ategu'r pum ffordd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, trwy annog meddwl hirdymor a gweithredu ar y cyd.

## **Nod y canllaw**

Bydd yr adran hon yn esbonio nodau a diben y canllaw. Bydd yn cynnwys manylion ynghylch:

- y modd y dylid darllen y Bil (y Ddeddf) a'r canllaw gyda'i gilydd, er mwyn deall yn llwyr beth yw disgwyliadau'r ddyletswydd;
- y modd y dylid ategu'r dasg o roi'r ddyletswydd ar waith gyda hyfforddiant a phrosesau o fewn gyrff y GIG;
- y modd y mae'r canllaw wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â chlinigwyr, cleifion a'r cyhoedd, fel y gellir cynnwys enghreifftiau esboniadol ac astudiaethau achos a sicrhau ei fod yn glir ac yn ddealladwy i bawb.

Bydd hefyd yn ymdrin â materion gweithredu allweddol y gellir eu profi o ganlyniad i gyflwyno'r ddyletswydd newydd, yn cynnwys dysgu yn sgil rhannau eraill o'r DU (pan ellir eu cymharu), a bydd yn cyflwyno astudiaethau achos arferion gorau pan fo hynny'n briodol.

Yn olaf, efallai y bydd yn cynnwys gwybodaeth am y modd y bydd y canllaw yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau.

## Deall ystyr 'ansawdd'

Bydd yr adran hon yn disgrifio ymhellach yr hyn y mae 'ansawdd' yn ei olygu er mwyn sicrhau bod bwriad y Bil yn cael ei ddeall, mewn ystyr ymarferol.

Bydd angen cynnwys manylion ynghylch:

- y diffiniad o ansawdd yng nghyd-destun y ddyletswydd h.y. y diffiniad a dderbynnir yn rhyngwladol, sy'n cynnwys chwe elfen: diogel, effeithiol, canolbwyntio ar unigolion, teg, effeithlon ac amserol.
- y modd y dylid ei roi ar waith h.y. o safbwynt prosesau cyfan ac ar draws holl swyddogaethau cyrff y GIG, yng nghyd-destun anghenion iechyd a llesiant eu poblogaethau;
- yr hyn y mae'n ei olygu o safbwynt ystyriaethau a phenderfyniadau a wneir gan Fyrddau, yn ogystal â'r hyn y mae'n ei olygu i staff rheng flaen yn eu gwaith o ddydd i ddydd;
- y modd y mae'r ddyletswydd newydd yn ehangach ei chwmpas ac yn wahanol o ran natur i'r ddyletswydd ansawdd bresennol yn Adran 45 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

## Sut y bydd y ddyletswydd yn gweithio'n ymarferol?

Bydd y ddyletswydd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG arfer eu swyddogaethau mewn modd arbennig ac ystyried sut y gallant wella ansawdd yn barhaus wrth arfer eu holl swyddogaethau. Bydd yn rhaid i'r cysyniad o wella ansawdd gael ei ymgorffori yn eu prosesau penderfynu, a dod yn rhan greiddiol ohonynt. Bydd yr adran hon yn cynnig manylion ategol ynghylch sut y bwriedir i'r ddyletswydd weithio'n ymarferol.

Bydd yn cyflwyno manylion yn ymwneud â'r canlynol:

- y modd y dylid ystyried ansawdd gwasanaethau ar lefel poblogaeth ehangach – rhoi ystyriaethau'n ymwneud ag ansawdd wrth galon a chraidd prosesau penderfynu;
- y modd y bydd ehangu ystyriaethau'n ymwneud ag ansawdd yn annog cyrff i wneud y canlynol:
  - gweithio gyda byrddau iechyd cyfagos a phartneriaid traws-sector i leihau amrywio anesgusodol ac anghydraddoldeb iechyd, yn cynnwys taelo annhegwch yn y boblogaeth agored a gweithio gyda phartneriaid i ymdrin â hyn;
  - hyrwyddo'r arfer o rannu adnoddau ac arbenigedd – sef rhywbeth a fydd, yn ei dro, yn esgor ar fwy o gyfleoedd i wella effeithiolrwydd, diogelwch ac ansawdd gwasanaethau.
- yr angen i gyrff y GIG ganolbwyntio llawer mwy ar ganlyniadau wrth wneud penderfyniadau a meddwl mewn ffordd wahanol wrth ystyried pa gamau y byddant yn eu cymryd i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau – yn cynnwys sut y byddant yn cyflwyno gwelliannau sy'n creu gwasanaethau a all ddylanwadu ar bobl gydol eu hoes, gan wella canlyniadau iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau iechyd ac, yn y pen draw, arwain at leihau'r galw am wasanaethau statudol;
- y modd y mae'r ddyletswydd yn berthnasol i gyrff y GIG nad ydynt yn darparu gwasanaethau clinigol yn uniongyrchol – gan adlewyrchu'r ffaith y gellir cael gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau iechyd trwy wella gwasanaethau 'ystafell gefn', fel prosesau caffael neu TGCh;
- y modd y disgwylir i gyrff y GIG gynnwys mewn trefniadau comisiynu lleol yr angen am ddata'n ymwneud ag ansawdd/canlyniadau gan ddarparu'r.

Ymhellach, bydd yn dangos sut y bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd yn cyfrannu at, ac yn dylanwadu ar, y seilwaith ansawdd presennol ac yn llywio'r dasg o gynllunio a gwella blaenoriaethau. Dylai hyn lywio'r canlynol:

- cynnydd tuag at yr amcanion cenedlaethol sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau Ansawdd a Diogelwch y cyrff GIG eu hunain;
- y broses gynllunio flynyddol – Cynlluniau Tymor Canolig Integredig;
- cynnydd yn erbyn gofynion fframwaith cyflawni a chanlyniadau'r GIG;
- cydymffurfio â safonau iechyd a gofal a chanllawiau perthnasol a bennir gan Weinidogion Cymru.

Yn olaf, bydd angen i'r adran hon gynnig enghreifftiau esboniadol ac astudiaethau achos yn ymwneud â'r modd y gallai sefydliadau roi egwyddorion y ddyletswydd ar waith er mwyn sicrhau gwelliannau. Er enghraifft, fe fydd yna wahaniaeth amlwg ym mhapurau a chofnodion Byrddau a Phwyllgorau, oherwydd bydd penderfyniadau a wneir gan gyrff y GIG yn cael eu dogfennu'n glir er mwyn dangos sut y cânt eu llywio gan ystyriaethau'n ymwneud â gwella'r gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i ategu a darparu cyd-destun ar gyfer unrhyw bwyntiau dysgu.

### **Y ddyletswydd i adrodd**

Mae'r gofynion adrodd yn gam mawr ymlaen, oherwydd nid oes gan y ddeddf bresennol unrhyw ofynion adrodd o'r fath, a dylid ystyried hyn fel ysgogiad pwysig o ran gwella tryloywder ac atebolrwydd cyrff y GIG ymhellach mewn perthynas â'u penderfyniadau, y blaenoriaethau a bennir ganddynt a'r modd y dyrannir adnoddau ar gyfer hyn. Mae'n ddull pwysig o ran helpu i ymdrin â chasgliadau adolygiad ansawdd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn 2016, lle y daethpwyd i'r casgliad fod Byrddau Iechyd Lleol yn dangos llai o arloesi a llai o ddulliau radical na'r disgwyl o ran newid systemau a gwella ansawdd.

Bydd angen i'r adroddiadau nodi'n glir sut y mae cyflawni'r ddyletswydd wedi arwain at welliannau mewn ansawdd, a sut y bydd yn parhau i arwain at welliannau o'r fath – yn cynnwys asesiad o hyd a lled unrhyw welliannau mewn canlyniadau ansawdd, gan gynnwys effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau, ynghyd â phrofiad cleifion, a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i welliannau mewn ansawdd gael eu monitro dros amser, gan bennu cerrig milltir fel bo'r angen pan fo'n debygol y bydd y gwelliannau'n cymryd sawl blwyddyn i esgor ar y gwelliannau disgwylidig mewn canlyniadau.

Felly, bydd yr adran hon yn darparu canllaw ar y modd y gall cyrff y GIG ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd trwy gyfrwng eu hadroddiadau ansawdd blynyddol, sy'n orfodol yn ôl y Bil. Bydd yr adran hon, felly, yn cyflwyno manylion ynghylch:

- yr amserlen ar gyfer llunio'r adroddiadau, a sut a ble y dylid eu cyhoeddi;
- ym mha fformat y dylid cyhoeddi'r adroddiadau;
- manylion pellach ynghylch cynnwys disgwylidig yr adroddiad, er enghraifft, sut y mae penderfyniadau a champau allweddol a wnaed ac a gymerwyd yng nghyfnod yr adroddiad wedi arwain at welliannau mewn gwasanaethau a chanlyniadau gwell, a sut y mae'r corff yn bwriadu sicrhau gwelliannau mewn meysydd dynodedig yn ystod y flwyddyn nesaf (neu fwy);

- sut y dylai cyrff y GIG gofnodi, cynnal a monitro gwelliannau mewn gwasanaethau a chanlyniadau, fel y gellir cyflwyno tystiolaeth gadarn i ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd a sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.

Bydd yr adran hon hefyd yn esbonio sut y bydd yr adroddiadau newydd yn disodli ac yn adeiladu ar Ddatganiadau Ansawdd Blynyddol presennol, er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd yr adroddiadau newydd yn ddogfen 'system gyfan' – dogfen a chanddi ffocws ehangach a mwy o dystiolaeth gytbwys i ddangos gwelliannau mewn ansawdd ar draws y sefydliad ac, mewn rhai achosion, ar draws terfynau sefydliadol, lle y caiff y ddarpariaeth gwasanaethau ei threfnu trwy gyrff GIG eraill yng Nghymru.

### **Cymorth a hyfforddiant i staff**

Yn ôl pob tebyg, fe fydd symud cyrff y GIG i sefyllfa lle y maent yn canolbwyntio'n fwy rheolaidd ac yn fwy gweithredol ar ansawdd a gwelliant parhaus yn golygu cyfuniad o newidiadau mewn arweinyddiaeth, diwylliant ac ymddygiad. Mae'r Memorandwm Esboniadol ym mharagraffau 180-189 yn nodi ystod o hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer ymgorffori'r ffyrdd newydd hyn o weithio ym mhob lefel. Bydd yr adran hon yn nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig o gyrff y GIG o ran y newidiadau angenrheidiol, yn cynnwys cyfeirio staff at hyfforddiant a chymorth yn ymwneud â'r ddyletswydd.

Efallai hefyd y bydd yn cynnwys trosolwg o'r hyn y dylai cyrff y GIG ei ystyried wrth ddatblygu unrhyw bolisiau lleol i ategu'r ddyletswydd.

### **Cwestiynau cyffredin**

Bydd yr adran hon yn cynnwys cyfres o gwestiynau cyffredin disgwyliedig, ynghyd ag atebion. Gall gyfeirio hefyd at unrhyw hyfforddiant neu wybodaeth ychwanegol ar gyfer dysgu pellach.

## **BIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (ANSAWDD AC YMGYSYLLTU) (CYMRU)**

### **AMLINELLIAD DRAFFT: CANLLAW STATUDOL AR Y DDYLETSWYDD GONESTRWYDD**

#### **Cefndir**

Mae Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ("y Bil") yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau sy'n manylu ynghylch y broses y dylai cyrff y GIG ei dilyn pan gaiff y ddyletswydd gonestrwydd ei thanio. Bydd y rheoliadau, a fydd yn destun ymgyngoriad cyhoeddus, yn cael eu hategu gan ganllaw statudol.

Y bwriad yw galw gweithgor a fydd yn cynnwys clinigwyr (i gynrychioli gofal sylfaenol, eilaidd) a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau i gydweithio i ddatblygu canllaw statudol er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn, yn berthnasol, yn glir ac yn hygyrch i'r gwasanaeth ac i'r cyhoedd.

Yn ôl y dystiolaeth, mae modd cysylltu'r arfer o fod yn agored, yn dryloyw ac yn onest â chyflawni iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd well. Mae'n dangos bod sefydliadau a chanddynt ddiwylliannau agored a thryloyw yn fwy tebygol o dreulio amser yn dysgu ar sail digwyddiadau, yn hytrach na cheisio cuddio materion neu fod yn rhy amddiffynnol yn eu cylch, a'u bod yn fwy tebygol o gael prosesau a systemau ar waith i gynorthwyo'u staff pan aiff pethau o'u lle.

Ar gyfer cleifion, pan aiff rhywbeth o'i le mae mwyafrif yr unigolion a'u hanwyliaid eisiau cael eu hysbysu mewn modd gonest ynghylch beth sydd wedi digwydd, cael gofal a chymorth priodol ar ôl y driniaeth, a chael sicrwydd bod popeth yn cael ei wneud i ddysgu ar sail yr hyn a aeth o'i le gan hyderu na fydd yr un peth yn digwydd eto. Bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn helpu i gyflawni hyn.

O safbwynt y ddyletswydd gonestrwydd arfaethedig, bydd angen i gyrff y GIG ddilyn proses benodol pan fo canlyniad andwyol yn digwydd a phan gaiff y ddyletswydd ei thanio. Gosodir y ddyletswydd ar lefel sefydliadol, a bydd hyn yn helpu i greu'r amodau a fydd yn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i gyflawni'u dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol trwy sicrhau bod ganddynt gefnogaeth y sefydliad y maent yn gweithio iddo. Er mwyn i sefydliadau gwrdd â'r rhwymedigaethau a roddir arnynt yn y Bil, bydd angen i'r holl staff weithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â'r ddyletswydd. Bydd angen i holl gyrff y GIG fod â pholisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn galluogi'u staff i wneud hynny'n effeithiol.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno amlinelliad drafft o'r meysydd hynny y byddem yn disgwyl i'r canllaw statudol eu cwmpasu.

#### **Cyflwyniad**

Er mwyn creu 'dull system gyfan' o ymdrin â gonestrwydd; annog dysgu sefydliadol; annog staff i siarad yn agored ynghylch pryderon a chynorthwyo cyrff y GIG i adeiladu ar y gwaith

a ategir gan Gweithio i Wella<sup>1</sup>, rhaid cael dealltwriaeth sylfaenol o'r bwriad sydd wrth wraidd y ddyletswydd gonestrwydd. Felly, bydd y rhan hon o'r canllaw yn pennu'r fframwaith deddfwriaethol ac yn esbonio bwriad y polisi sydd wrth wraidd y ddyletswydd mewn modd syml a hygyrch.

Bydd yr adran hon yn cyflwyno'r canlynol:

- trosolwg o'r ddyletswydd gonestrwydd ("y ddyletswydd") a geir yn y Bil a'r rheoliadau ategol sy'n pennu'r weithdrefn y dylid ei dilyn pan gaiff y ddyletswydd ei thanio;
- sut y bwriedir i'r ddyletswydd fod yn rhan o ddull ehangach a pharhaus Llywodraeth Cymru o ymdrin â system iechyd a gofal cymdeithasol sydd bob amser yn gwrando, yn dysgu ac yn gwella – system y mae defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd yn ymddiried ynnddi ac yn teimlo'n hyderus ynnddi;
- esbonio pam y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei chyflwyno a'r amcanion polisi allweddol, yn cynnwys sut y mae'n helpu i gael 'dull system gyflawn' o safbwynt bod yn agored ac yn onest pan aiff pethau o'u lle;
- manylion ynghylch sut y mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar yr egwyddor "Bod yn Agored", sydd wedi'i hymgorffori yn nhrefniadau presennol Gweithio i Wella (lle y pennir proses ar gyfer rheoli pryderon, yn cynnwys cwynion a digwyddiadau difrifol yn GIG Cymru);
- sut y mae'r canllaw wedi'i gyd-gynhyrchu gyda chlinigwyr a chynrychiolwyr cleifion a'r ffaith ei fod yn cynnwys enghreifftiau esboniadol ac astudiaethau achos i sicrhau ei fod yn glir ac yn ddealladwy i bawb.

Bydd yr adran hon hefyd yn esbonio bod y ddyletswydd, yn y pen draw, yno er budd defnyddwyr gwasanaethau trwy sicrhau, pan fydd canlyniad andwyol yn digwydd, y bydd y defnyddwyr yn cael eu hysbysu, yn cael cynnig ymddiheuriad a chymorth, ac yna'n cael adborth ar yr ymchwiliadau a'r camau a gymerwyd i rwystro'r un peth rhag digwydd eto, a hefyd i sicrhau bod y sefydliad yn dysgu gwersi.

Bydd hefyd yn tanlinellu pa mor bwysig yw sicrhau bod staff sydd wedi darparu triniaeth a arweiniodd at danio'r ddyletswydd yn cael cymorth gan eu cyflogwr.

Nod y ddyletswydd newydd yw meithrin a hyrwyddo diwylliant agored a diwylliant o ddysgu yn sefydliadau'r GIG. Nid atal bwlio, erledigaeth nac aflonyddwch mo'i bwriad, nac ychwaith amddiffyn chwythwyr chwiban. Ymdrinnir â'r gyfraith, y canllawiau a'r arferion gorau sy'n ymwneud â'r materion hyn mewn deddfwriaeth ar wahân ac ym mhrosesau a gweithdrefnau presennol y GIG. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn haws i staff unigol fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaethau pan aiff pethau o'u lle a chael cymorth er mwyn gwireddu hyn.

## **Nod y canllaw**

Bydd yr adran hon yn esbonio nodau a diben y canllaw. Byddai hefyd yn esbonio ei bod yn ofynnol i gyrrff y GIG dalu sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth ymarfer unrhyw swyddogaeth sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd gonestrwydd, yn unol ag adran 10 y Bil.

---

<sup>1</sup> Gwybodaeth am Gweithio i Wella [Rhynggrwyd]. Gweithio i Wella. 2018 [dyfynnwyd 4 Ebrill 2019). Ar gael ar <http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738>

Byddai'r adran hon hefyd yn esbonio sut y mae'r canllaw yn anelu at ddarparu fframwaith arferion gorau a fydd yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau'r GIG i roi'r ddyletswydd ar waith. Bydd yn ceisio arwain darparwyr y GIG i ddatblygu polisiau, canllawiau a gweithdrefnau lleol i ategu'r dasg o roi'r ddyletswydd ar waith yn lleol mewn modd sydd wedi'i deilwra ar gyfer y gwasanaethau arbennig a ddarperir ganddynt. Yn y pen draw, fe ddylai bod yn agored gyda chleifion a'u cynrychiolwyr, pan aiff pethau o'u lle, deimlo fel y peth iawn i'w wneud.

Bydd hefyd yn ymdrin â materion gweithredu allweddol y gellir eu profi o ganlyniad i gyflwyno'r ddyletswydd newydd, yn cynnwys dysgu yn sgil rhannau eraill o'r DU, a bydd yn cyflwyno astudiaethau achos arferion gorau pan fo hynny'n briodol.

Bydd yr adran hon yn cynnwys manylion ynghylch y canlynol:

- y modd y mae'r canllawiau a'r rheoliadau wedi'u datblygu ar y cyd â Fforwm Partneriaeth Cymru (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o weithlu'r GIG, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru) ac Undebau Llafur gyda golwg ar gael eu defnyddio fel 'model Cymru gyfan' er mwyn cynorthwyo i gael dull cyson trwy'r holl ardaloedd byrddau iechyd;
- y modd y dylid darllen y Ddeddf, y rheoliadau a'r canllaw gyda'i gilydd, a'r modd y bydd y ddyletswydd yn cael ei chydweddu â threfniadau Gweithio i Wella;
- [y modd y bwriadwyd i'r ddyletswydd greu amgylchedd sy'n gefnogol i staff a chanddynt bryderon, gan wneud iddynt deimlo y gallant grybwyll y rhain wrth eu cyflogwr a bod yn dawel eu meddwl na fyddant yn dioddef unrhyw anfantais o ganlyniad i leisio'r pryderon hynny].

Ymhellach, efallai y bydd yn cynnwys gwybodaeth am y modd y bydd y canllaw yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau.

Yn olaf, bydd yn esbonio sut y mae'r ddyletswydd yn rhywbeth ar wahân i Bolisi Codi Pryderon Staff (Chwythu'r Chwiban) Cymru Gyfan<sup>2</sup>, sydd ar waith ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

## **Tanio'r ddyletswydd**

Mae'r Bil yn nodi dau o amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir tanio'r ddyletswydd:

- mae'r person sydd yn cael/wedi cael gofal iechyd gan gorff y GIG wedi dioddef canlyniad andwyol;
- roedd y gofal iechyd yn ffactor, neu fe allai fod yn ffactor, a barodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

Dylai defnyddiwr gwasanaeth gael ei drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw ef neu hi wedi profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol, neu pe gallai'r amgylchiadau arwain at brofi niwed o'r fath.

---

<sup>2</sup> Polisi a gweithdrefnau cyflogaeth Cydffederasiwn y GIG [Rhynggrwyd]. [Dyfynnwyd 25 Gorffennaf 2019]. Ar gael hefyd ar: <https://www.nhsconfed.org/regions-and-eu/welsh-nhs-confederation/nhs-wales-employers/our-work/employment-policy-and-procedures>



Bydd y canllaw yn cynnig eglurder ynghylch yr amryfal amgylchiadau a allai danio'r ddyletswydd a'r hyn y byddai hynny'n ei olygu i'r bobl y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt.

Rydym wedi mynd ar drywydd polisi bwriadol o beidio â diffinio ystyr "mwy nag ychydig o niwed" ar wyneb y Bil ac yn y rheoliadau. Yn hytrach, rydym wedi dysgu ar sail profiad Lloegr a'r Alban lle'r ymdrechwyd yn y ddeddfwriaeth i ddiffinio trothwyon y niwed a oedd yn angenrheidiol i danio'u dyletswyddau. Ein bwriad yw diffinio ystyr "mwy nag ychydig o niwed" yn y canllaw.

Ceir nifer o resymau dros hyn. Yn gyntaf, rydym o'r farn ei bod yn iawn i'r trothwy sy'n tanio'r ddyletswydd gael ei ddatblygu gyda chymorth gweithgor a fydd yn cynnwys clinigwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Yn ail, mae'r disgrifiad 'mwy nag ychydig o niwed' yn gymhleth oherwydd amrediad a natur y gofal a ddarperir ar draws y GIG. Bydd modd cynnig diffiniad llawer mwy ystyrlon, wedi'i ategu gan enghreifftiau esboniadol ac astudiaethau achos, yn y canllaw. Y nod allweddol yw sicrhau bod y diffiniad yn ateb y gofyn ar draws holl leoliadau'r GIG, ei fod yn cynorthwyo i roi'r ddyletswydd ar waith yn llwyddiannus a'i fod yn hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaethau a chlinigwyr. Yn y pen draw, y bwriad yw hyrwyddo diwylliant agored a gonest gyda defnyddwyr gwasanaethau a galluogi'r staff i ganolbwyntio ar ddysgu a gwella.

Disgwylir i'r trothwy gael ei ddatblygu trwy ystyried y diffiniadau presennol o niwed a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y GIG yng Nghymru, fel y rhai a ddefnyddir yn y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu<sup>3</sup> (y system ar gyfer cofnodi digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion yng Nghymru a Lloegr) neu, os yw'n berthnasol, y system olynol.

Bwriedir hefyd i'r canllaw gynnig enghreifftiau o achosion lle y caiff y ddyletswydd ei thanio. Y bwriad trwy wneud hyn yw cynnig amrywiaeth o enghreifftiau – o enghreifftiau amlwg i senarios lle y mae'r defnydd o'r ddyletswydd, efallai, yn llai amlwg. Yma, er enghraifft, bydd y canllaw yn nodi'n glir y bydd y ddyletswydd yn cael ei thanio nid yn unig pan wyddys am achosion o 'fwy nag ychydig o niwed', ond hefyd mewn achosion lle y gallai niwed o'r fath ddigwydd yn y dyfodol. Dyma ddwy enghraifft:

- Pe bai person wedi cwmpo, a phe na bai'r toriad yn cael ei ganfod ar ôl pelydr-x yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys, ond pe bai'n cael ei ganfod wrth adolygu'r pelydr-x wythnos yn ddiweddarach. Yn yr achos hwn, byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei thanio ar yr adeg y daw'r corff yn ymwybodol fod canlyniadau'r pelydr-x yn dangos toriad, nid pan glywir bod y claf wedi dioddef niwed yn sgil methiant i wneud diagnosis amserol. Bydd person yn dioddef canlyniad andwyol pe bai'n dioddef mwy nag ychydig o niwed, neu pe gallai'r amgylchiadau arwain at fwy nag ychydig o niwed anfwriadol neu annisgwyl i'r person hwnnw. Yn amlwg, yn yr enghraifft hon, fe allai'r oedi cyn rhoi triniaeth arwain at fwy nag ychydig o niwed a oedd yn anfwriadol neu'n annisgwyl, ac felly caiff y ddyletswydd ei thanio.
- Efallai na fydd camgymeriad wrth weinyddu meddyginiaeth pan gaiff claf ei ryddhau yn arwain at niweidio'r claf yn syth. Ond byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei thanio ar yr adeg y daw'r corff yn ymwybodol o'r camgymeriad, nid pan ddaw'n

---

<sup>3</sup> Gwybodaeth a gwasanaethau diogelwch cleifion Llywodraeth Cymru [Rhyngwryd]. LLYW.CYMRU. 2019 [dyfynnwyd 25 Gorffennaf 2019]. Ar gael ar <https://lyw.cymru/diogelwch-cleifion>

ymwybodol o unrhyw niwed i'r claf. Yn amlwg, fe allai camgymeriad mewn meddyginiaeth, oni bai ei fod yn gamgymeriad bach iawn, arwain at niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy nag ychydig o niwed.

Gall yr adran hon hefyd ymdrin â rhai o'r amgylchiadau arbennig a all godi wrth danio'r ddyletswydd, a sut y dylai cyrff y GIG ddelio â hwy, er enghraifft:

- pe bai'r canlyniad andwyol sy'n tanio'r ddyletswydd yn cael ei ddwyn i sylw darparwr y GIG gan y claf neu aelod o'i deulu/eiriolwr;
- pe bai'r achos 'ar y ffin' a phe bai angen dyfarniad ynghylch a yw'r trothwy wedi'i gyrraedd ac a yw'r ddyletswydd wedi'i thanio;
- pan fydd mwy nag un o ddarparwyr y GIG yn gysylltiedig â'r digwyddiad;
- pan fydd mwy nag un digwyddiad neu gadwyn o ddigwyddiadau i'w cael;

Yn olaf, bydd angen i'r canllaw gynnwys manylion ynghylch adegau pan na fydd y ddyletswydd yn cael ei thanio. Gall achosion o'r fath gynnwys:

- damweiniau a fu bron â digwydd. Mae "damwain a fu bron â digwydd" yn rhywbeth a allai fod wedi arwain at fwy nag ychydig o niwed i'r claf, ond sylwyd ar y camgymeriad a fyddai wedi achosi'r niwed a chaiff ei gywiro cyn achosi unrhyw niwed. Yn rhinwedd y diffiniad o 'ddamweiniau a fu bron â digwydd', nid yw'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol i ddigwyddiadau o'r fath, oherwydd nid oes unrhyw bosibilrwydd i unrhyw niwed ddod i ran y claf. Fodd bynnag, mae'n bwysig dysgu ar sail damweiniau a fu bron â digwydd, a bydd y canllaw yn nodi'n glir y camau y mae angen i gyrff y GIG eu cymryd i ymateb i ddigwyddiadau o'r fath, a dysgu ar eu sail, er mwyn eu rhwystro rhag digwydd eto; neu
- pan fo niwed yn digwydd o ganlyniad i'r cyflwr meddygol ei hun a phan ellir ei briodoli'n unswydd i salwch neu gyflwr sylfaenol y person.

## Hysbysu

Cydnabyddir yn gyffredinol fod cleifion a'u teuluoedd yn disgwyl tri pheth pan aiff pethau o'u lle:

- cael eu hysbysu mewn modd gonest ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd;
- cael gwybod beth fydd yn cael ei wneud i ddelio â'r niwed a achoswyd;
- cael gwybod beth fydd yn cael ei wneud i rwystro'r un peth rhag digwydd eto.

Y disgwyliadau hyn yw conglaen y ddyletswydd gonestrwydd ac maent yn sylfaen i'r 'weithdrefn gonestrwydd' a nodir yn y rheoliadau. Disgwylir y bydd y rheoliadau'n nodi manylion fel ffurf, cynnwys ac amseru'r hysbysu, fel:

- yr amserlen ar gyfer hysbysu;
- sut y bydd yr hysbysiad yn cael ei ddarparu;
- manylion ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys e.e. bod y ddyletswydd wedi dod i rym a beth y mae hyn yn ei olygu;
- enw'r 'unigolyn enwebedig' a fydd yn bwynt cyswllt i'r defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â'r hysbysiad;
- manylion ynghylch unrhyw ymchwiliadau neu adolygiadau pellach a gynhelir gan ddarparwr y GIG mewn perthynas â'r amgylchiadau a arweiniodd at ddod â'r ddyletswydd i rym;
- yr angen i gadw cofnodion;

- yr angen i adrodd yn flynyddol ar gyflawni'r ddyletswydd.

I ategu'r rheoliadau hyn, disgwylir y bydd y canllaw yn darparu mwy o fanylion ategol ynghylch sut y mae'r ddyletswydd wedi'i chydweddu â phrosesau eraill, fel y Fframwaith Digwyddiadau Difrifol a geir yn y canllaw Gweithio i Wella.

Disgwylir hefyd y bydd y canllaw angen ymdrin â sut y bydd yr elfen 'hysbysu' yn y ddyletswydd yn gweithio'n ymarferol. Fe allai hyn gynnwys manylion ynghylch ymddiheuro a ble y gall defnyddwyr gwasanaethau neu eu cynrychiolwyr gael gwybodaeth bellach, er enghraifft:

- ymddiheuro – beth y mae ymddiheuriad yn ei olygu yng nghyd-destun y ddyletswydd, pryd y dylid ymddiheuro a sut i gyflwyno ymddiheuriad ystyrion;
- ymholiadau pellach – yr angen i gynnig cyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau, neu eu cynrychiolwyr, fynegi eu barn, er enghraifft ystyried unrhyw gwestiynau y dymunant gael atebion iddynt trwy adolygu'r amgylchiadau.

Bydd hefyd yn cynnwys manylion ynghylch y mathau o gofnodion y dylid eu cynnwys. Efallai hefyd y bydd yn ymdrin â rhai amgylchiadau arbennig a all godi yn ystod y broses hysbysu:

- canfod cynrychiolydd priodol at ddibenion hysbysu ("unigolyn a hysbysir") mewn achosion pan nad y defnyddiwr gwasanaeth ei hun yw'r person hwn e.e.:
  - pan fo'r defnyddiwr gwasanaeth yn blentyn, neu yn niffyg galluedd meddyliol;
  - pan na all y darparwr gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth;
  - pan nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn dymuno i neb gysylltu ag ef/hi;
  - pan fo'r defnyddiwr gwasanaeth wedi marw.
- cyngor arferion gorau ynghylch penderfynu pwy y dylai'r pwynt cyswllt enwebedig ar gyfer darparwr y GIG fod. Byddai'n gyfrifol am gyfathrebu'n barhaus gyda'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd:
  - yn cynnwys pan fo mwy nag un o ddarparwyr y GIG yn gysylltiedig â digwyddiad – dylai'r unigolyn enwebedig weithredu ar ran yr holl sefydliadau perthnasol
  - sefyllfaoedd lle y gellir ystyried ei bod yn rhesymol neu'n angenrheidiol i Fyrddau Iechyd Lleol ddarparu cymorth i ddarparwyr gofal sylfaenol i'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon.
- os yw'n wahanol i'r pwynt cyswllt enwebedig, penderfynu pwy yw'r person priodol ar gyfer hysbysu'r unigolyn ynghylch tanio'r ddyletswydd – fe allai hyn gynnwys:
  - ystyried natur y digwyddiad;
  - eu perthynas â'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd;
  - sgiliau a phrofiad y pwynt cyswllt enwebedig; ac
  - unrhyw ofynion penodol sydd gan y defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd, er enghraifft ei hoff ddull/iaith cyfathrebu, priodol i'w oed, lefel ei ddealltwriaeth, ac ystyried unrhyw amodau penodol a allai fod yn berthnasol.
- sut y byddai'r broses hysbysu'n gweithio pe bai'r canlyniad andwyol sydd wedi tanio'r ddyletswydd yn cael ei ddwyn i sylw corff y GIG gan y claf neu ei deulu/eiriolwr;
- yr hyn y dylid ei wneud pe na bai rhywfaint o'r wybodaeth ar gael eto, neu pe bai darparwr y GIG angen gwybodaeth gan y defnyddiwr gwasanaeth, neu ei gynrychiolydd, fel rhan o'i ymchwiliadau;

- achosion lle y ceir oedi cyn hysbysu.

## **Cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau yn ystod y cam hysbysu**

Efallai y bydd rhai defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo gofid ar ôl clywed y gallai canlyniad andwyol y maent wedi'i brofi fod wedi digwydd oherwydd triniaeth a gawsant, a hefyd ceir sefyllfaoedd pan fydd rhai defnyddwyr gwasanaethau'n cael trafferth deall yr wybodaeth a gyflwynir yn yr hysbysiad.

Bydd yr adran hon yn y canllaw yn ceisio nodi sut y gall darparwr gwasanaethau'r GIG sicrhau ei fod yn cynnig cymorth priodol a chymesur i ddefnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'r broses hysbysu. Gall hyn gynnwys:

- pryd y gall fod yn briodol i ddarparwr y GIG gynnig cymorth i'r defnyddiwr gwasanaeth, er na fydd hyn yn angenrheidiol mewn sawl achos;
- enghreifftiau ymarferol o natur a lefel y cymorth a'r gofal adferol a all fod yn briodol mewn gwahanol amgylchiadau;
- y modd y bydd rhai defnyddwyr gwasanaethau'n cael trafferth efallai i ddeall yr wybodaeth a gyflwynir yn yr hysbysiad;
- esboniad o'r modd y mae'r ddyletswydd yn cysylltu â'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd fel rhan o Gweithio i Wella;
- eu cyfeirio at wasanaethau cymorth, fel eiriolaeth neu gyngor arbenigol, neu drefnu cyfieithwyr/dehonglwyr neu gymorth gyda chyfathrebu.

## **Cyfathrebu gyda'r unigolyn a hysbysir ar ôl yr hysbysiad**

Mae cyfathrebu'n effeithiol yn golygu mwy na chyfnewid gwybodaeth. Bydd yr adran hon yn y canllaw yn rhoi arweiniad i gyrrff y GIG ar sut y dylent barhau i gyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau neu eu teuluoedd ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno, er mwyn sicrhau bod y negeseuon yn glir, gan osgoi pa bryd bynnag y bo modd rwystredigaeth a gwrthdaro. Gall gynnwys manylion ynghylch:

- ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaethau, neu eu cynrychiolwyr, i drafod cynnwys yr hysbysiad;
- deall a rheoli disgwiliadau'n ymwneud ag ymchwiliadau neu adolygiadau pellach y dylai darparwr y GIG eu cynnal, a chyfathrebu amserlenni realistig;
- sicrhau bod cymorth priodol wedi'i roi ar waith, pan fo hynny'n briodol;
- gwneud trefniadau ar gyfer cyfathrebu parhaus, yn cynnwys unrhyw ymwneud ag ymchwiliadau/adolygiadau dilynol;
- cyfathrebu canlyniadau unrhyw ymchwiliad/adolygiad pellach;
- sut i ymdrin â cheisiadau am wybodaeth bellach gan ddefnyddwyr gwasanaethau neu eu cynrychiolwyr;
- pan fydd y defnyddiwr gwasanaeth, neu ei gynrychiolydd, yn cysylltu â rhywun ac eithrio'r 'unigolyn enwebedig';
- sut i gyfathrebu pan fo mwy nag un o ddarparwyr y GIG yn gysylltiedig â'r ymchwiliadau;
- eu cyfeirio at drefniadau Gweithio i Wella a chymorth eiriolaeth;
- yr hyn y dylid ei wneud pe bai defnyddwyr gwasanaethau, neu eu cynrychiolwyr, yn penderfynu cymryd camau cyfreithiol yn dilyn yr hysbysiad;
- yr angen i gadw cofnodion.

## **Ymchwiliadau / adolygiadau**

Ym mhob achos lle y ceir canlyniad andwyol sy'n tanio'r ddyletswydd, bydd angen cynnal ymchwiliad neu adolygiad ar ryw lefel, er mwyn i'r corff allu deall yr hyn sydd wedi digwydd ac esbonio pam y digwyddodd. Yn unol ag egwyddorion Gweithio i Wella, bydd angen cynnal ymchwiliad sy'n gymesur â'r niwed a achoswyd.

Bydd yr adran hon yn cysylltu â'r canllaw Gweithio i Wella, sy'n cynnwys gofynion yn ymwneud â chofnodi digwyddiadau difrifol, a bydd yn egluro'r camau y dylai darparwyr y GIG eu cymryd dan y ddyletswydd pan fo angen cynnal naill ai ymholiad neu ymchwiliad oherwydd canlyniad andwyol a brofwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Bydd rheoliadau Gweithio i Wella yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau y caiff y weithdrefn gonestrwydd ei hymgorffori yn y broses.

Bydd yr adran hon hefyd yn nodi'r bwriad sydd wrth wraidd y ddyletswydd; sef na ddylid defnyddio ymchwiliadau i dynnu sylw at fethiannau unigol na neilltuo bai, ond y dylid eu defnyddio er budd dysgu a gwella. Bydd yn cynnig canllaw i ategu ymchwiliadau a gynhelir yn unol â'r bwriad hwn, yn cynnwys sut y gellir eu defnyddio fel offer i ategu myfyrio a dysgu sefydliadol a helpu i sicrhau bod didwylledd a gonestrwydd yn rhan arferol o ddiwylliant sefydliadol ar draws y GIG yng Nghymru.

Ymhellach, bydd yn cynnig canllaw ar y modd y gall cyrff ddogfennu ymchwiliadau er mwyn coladu'r mathau o dystiolaeth sy'n angenrheidiol i ddangos y cydymffurfir â'r ddyletswydd gan sicrhau hefyd amgylchedd cefnogol lle y caiff holl staff GIG Cymru eu hannog i fod yn agored ac yn onest, teimlo'n ddiogel, a themlo eu bod yn cael cefnogaeth pan fyddant yn awgrymu y dylid tanio'r ddyletswydd.

## **Adrodd**

Bydd yr adran hon yn tynnu sylw at y modd y gall bod yn agored ac yn onest arwain at y canlynol:

- rhoi cyfleoedd i'r corff adrodd a darparwyr eraill ddysgu ar sail yr hyn sydd wedi digwydd;
- cyfrannu at gynhyrchu'r dystiolaeth a'r data cronol y mae eu hangen i sbarduno gwelliannau; ac
- annog yr arfer o seilio penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ar yr hyn sydd bwysicaf – sef y canlyniad i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd, yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd mynnu bod cyrff yn adrodd yn flynyddol yn annog unigolion a sefydliadau i fyfyrion a dysgu; yn hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw yn y system a fydd, yn ei dro, yn hyrwyddo ffydd cleifion yn y gwasanaeth iechyd; ac yn darparu llinell sylfaen flynyddol er mwyn helpu i weld pa wasanaethau y mae angen eu gwella gyda golwg ar osgoi digwyddiadau yn y dyfodol.

Bydd yr adran hon yn darparu canllaw i gyrff y GIG ar ofynion adrodd dan y ddyletswydd, fel y nodir yn y Ddeddf. Bydd hyn yn cynnwys manylion pellach ynghylch y canlynol:

- pwy sy'n gyfrifol am y ddyletswydd i adrodd, yn cynnwys amgylchiadau pan fo mwy nag un corff o fewn y GIG yn gysylltiedig â darparu'r gofal a'r driniaeth;
- pryd y dylid llunio'r adroddiad h.y. cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol;

- cynnwys yr adroddiad, gan gynnwys, fel y bo'n angenrheidiol yn y Bil, sawl gwaith y mae'r ddyletswydd wedi'i thanio, disgrifiad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at ddod â'r ddyletswydd i rym, ac unrhyw gamau a gymerwyd gan y darparwr gyda golwg ar rwystro amgylchiadau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol;
- yr angen i ddarparwyr gofal sylfaenol baratoi adroddiad a rhoi'r adroddiad hwn i unrhyw Fyrddau Iechyd Lleol y mae ganddynt drefniadau â hwy i ddarparu gofal GIG;
- coladu ac ymgorffori adroddiadau blynyddol darparwyr gofal yn y rhai a lunnir gan Fyrddau Iechyd Lleol;
- cydweddu ag Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella;
- y gofynion i gyhoeddi'r adroddiad a sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd.

Efallai y bydd yr adran hon hefyd yn nodi'r prosesau ar gyfer cadw cofnodion, yn cynnwys yr angen i gofnodi pob achos o danio'r ddyletswydd ar systemau rheoli digwyddiadau lleol yn unol â'u polisiau lleol, a'r angen i'w codio mewn modd sy'n dangos eu bod wedi tanio'r ddyletswydd.

Efallai hefyd y bydd yr adran hon yn pennu'r canlynol:

- sut y dylai Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG gasglu data, trwy adrodd yn flynyddol ynghylch gonestrwydd, er mwyn helpu i lywio'r adroddiadau ansawdd blynyddol newydd;
- y modd y gall darparwyr gofal y GIG brofi eu bod yn hyrwyddo diwylliant sy'n annog gonestrwydd, a dysgu ar ei sail.

Fel rhywbeth ar wahân, bydd yr adran hon yn pennu'r disgwyliad y dylai darparwyr y GIG gynnwys, mewn trefniadau comisiynu lleol, yr angen am ddata'n ymwneud â gonestrwydd gan y darparwr.

### **Cymorth a hyfforddiant i staff**

Pan fo rhywbeth wedi mynd o'i le, ni ddylid anghofio teimladau'r staff, oherwydd er y bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn modd sensitif, efallai y bydd y staff yn teimlo eu bod ar fai ac o'r herwydd efallai y byddant yn llai parod i ofyn am gymorth pe baent yn teimlo dan bwysau neu'n teimlo'n ofidus. Er y gellir cynnal rhai ymchwiliadau'n gyflym, gall ambell un gymryd misoedd. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i sefydliad fod yn ymwybodol o'r effaith y gall hyn ei gael ar lesiant ei weithwyr.

Bydd yr adran hon yn nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ddarparwyr y GIG mewn perthynas â darparu cymorth i staff yn barhaus; gan gynnig trosolwg o'r hyn y dylai darparwyr ei ystyried wrth ddatblygu polisiau lleol ar gyfer rheolwyr staff sy'n gysylltiedig â digwyddiadau trawmatig/llawn straen a'r staff eu hunain. Bydd yn ategu'r ffaith fod iechyd a llesiant gweithlu'r GIG yn hollbwysig o ran rhoi gofal effeithiol i gleifion a chyflawni'r gweledigaethau a nodir yn Cymru Iachach ac, yn arbennig, y Nod Pedwarplyg. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys tynnu sylw at y canlynol:

- yr hyfforddiant, y deunyddiau ychwanegol a'r dogfennau ategol a fyddai ar gael i'r cyhoedd (ceir manylion ynghylch y rhain yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ategu'r Bil ym mharagraffau 261-279);
- cymorth llesiant i staff sydd, efallai, wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau a arweiniodd at niwed;
- y modd y gall darparwyr y GIG weithio ar y cyd ag Undebau Llafur i sicrhau bod y

staff yn teimlo'n hyderus i godi pryderon yn rhwydd.

### **Adran dechnegol**

Bydd yr adran hon yn esbonio ystyr "corff y GIG" a ddefnyddir yn y Bil h.y. pa gyrff y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol iddynt. Bydd yn esbonio hefyd pa sefydliadau sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd mewn sefyllfaoedd pan fo un corff yn darparu gwasanaethau ar ran corff arall.

Ymhellach, bydd yn esbonio bod dyletswydd gonestrwydd Cymru yn berthnasol i driniaeth a ddarperir gan ddarparwyr y GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, pe bai Bwrdd Iechyd yn gwneud trefniadau i un o breswylwyr Cymru gael gofal gan y GIG yn Lloegr, yna dyletswydd gonestrwydd Lloegr a fyddai'n berthnasol.

Hefyd, bydd yn nodi'n glir nad yw tanio'r ddyletswydd yn golygu bod y driniaeth a roddwyd yn esgeulus. Mae Adran 2 Deddf Iawndal 2006, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, yn nodi nad yw ymddiheuriad, cynnig triniaeth neu gam unioni arall ynddynt eu hunain yn gyfystyr â chyfaddefiad o esgeulustod neu dordyletswydd statudol.

### **Cwestiynau cyffredin**

Bydd yr adran hon yn cynnwys cyfres o gwestiynau cyffredin disgwylidig, ynghyd ag atebion. Gall gyfeirio hefyd at unrhyw hyfforddiant neu wybodaeth ychwanegol ar gyfer dysgu pellach.

Gall yr adran hon ddefnyddio astudiaethau achos i ategu a darparu cyd-destun ar gyfer unrhyw bwyntiau dysgu.

## Sut mae dyletswydd gonestrwydd yn gweithredu yng ngwledydd eraill y DU

Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn y Bil yn ceisio darparu fframwaith cyffredinol gyda rheoliadau a chanllawiau yn sail iddo. Mae wedi'i ragnodi fel hyn yn bwrpasol gan ein bod wedi dysgu o'r dyletswyddau sydd eisoes ar waith yn Lloegr a'r Alban h.y. yn yr Alban mae llawer iawn o fanylion wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, gan ei gwneud yn rhy anhyblyg.

Tabl sy'n dangos y gwahanol ddulliau gweithredu deddfwriaethol yn Lloegr, Yr Alban a'r Bil:

	Lloegr	Yr Alban	Bil
<b>Pwerau</b>	<b>Deddfwriaeth sylfaenol</b>  Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008	<b>Deddfwriaeth sylfaenol</b>  Rhan 2 o Ddeddf Iechyd (Tybaco, Nicotin etc. a Gofal) (yr Alban) 2016	<b>Deddfwriaeth sylfaenol</b>
<b>Sbardun</b>	<b>Rheoliadau</b> Rheoliadau 2014 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau Rheoledig) Rheoliad 20	<b>Rheoliadau</b>  Rheoliadau Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (yr Alban) 2018	<b>Rheoliadau a chanllawiau statudol wedi'u datblygu gyda chymorth clinigwyr a defnyddwyr gwasanaeth.</b>
<b>Gweithdrefn</b>			
<b>Hysbysiad</b>			
<b>Trothwy</b>			

### Dyletswydd gonestrwydd Lloegr:

Mae'r system reoleiddio yn Lloegr yn sylweddol wahanol o'i chymharu â Chymru. Yn Lloegr, caiff y ddyletswydd gonestrwydd ei gorfodi trwy reoliadau sy'n gymwys i'r holl wasanaethau a gofrestrir gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal. Dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, mae'n ofynnol i ddarparwyr "gweithgareddau a reoleiddir" gofrestru gyda'r Comisiwn ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion cofrestru. Ystyr "gweithgareddau a reoleiddir" yw gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion ac a nodir yn Rheoliadau 2014 y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) (SI 2014/2936).

Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn monitro cydymffurfiaeth â'r gofynion cofrestru. Mae'r cofrestriad hwn yn cynnwys enwebu 'Person Cofrestredig' sydd yn atebol yn y pen draw – y Prif Weithredwr neu uwch swyddog arall, fel rheol.

Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn Lloegr yn cael ei chymhwyso i'r Person Cofrestredig hwn yn unig. Fodd bynnag, mae'r canllawiau sy'n cefnogi'r ddyletswydd yn egluro: "*mae'r dull gweithredu a gymerir yn gobeithio annog diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ar bob lefel o fewn sefydliadau*".



Er bod y dull hwn o ymdrin â'r ddyletswydd yn wahanol i'r hyn a gynigir yn y Bil, mae'n bwriadu cyflawni'r un effaith – dyletswydd gonestrwydd ar draws y sefydliad. Yn syml, mae'r gwahaniaeth yn y dull gweithredu yn ymwneud â'r ffaith nad ydym yn cofrestru cyrff y GIG yng Nghymru nac yn gofyn am enwebu person cofrestredig.

#### Dyletswydd gonestrwydd Yr Alban:

Yn yr Alban, gwnaethpwyd darpariaeth ar gyfer dyletswydd gonestrwydd yn Rhan 2 y Ddeddf Iechyd (Tybaco, Nicotin etc. a Gofal) (yr Alban) 2016 (y Ddeddf Albanaidd). Daeth y dyletswydd i rym ar 1 Ebrill 2018.

Gosodir y ddyletswydd ei hun ar wyneb y Ddeddf Albanaidd yn Adran 21. Mae Adran 21 yn disgrifio enghreifftiau sy'n achosi gweithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn yr Alban yn gymwys i 'person cofrestredig', a ddiffinnir yn Adran 25 y Ddeddf Albanaidd i gynnwys bwrdd iechyd neu unrhyw un sy'n arwyddo cytundeb gyda bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau (e.e. darparwyr gofal sylfaenol). Mae hyn yn gyson gyda'r dull gweithredu yn y Bil gan ei fod yn gosod y ddyletswydd ar lefel sefydliadol.

#### Dyletswydd gonestrwydd gofal cymdeithasol:

Yng Nghymru, mae'r ddyletswydd gonestrwydd mewn gofal cymdeithasol wedi'i nodi o fewn rheoliadau a wneir o dan adrannau 27 a 28 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf). Er enghraifft, yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), mae Rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rheoledig weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag unigolion (defnyddwyr gwasanaeth) a'u cynrychiolwyr. Mae Rheoliad 83 yn gosod yr un ddyletswydd ar Unigolyn Cyfrifol dynodedig darparwr gwasanaeth. Mae Adran 21(2) y Ddeddf yn nodi bod rhaid i'r person hwn ar gyfer unrhyw gorff corfforaethol fod yn 'gyfarwyddwr neu'n swyddog tebyg yn y corff'.

Cefnogir y ddyletswydd reoleiddio hon gan ganllawiau statudol sy'n egluro disgwyliadau ymhellach, gan gynnwys bod gan ddarparwyr gwasanaeth bolisiau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Mae'r gofynion a'r disgwyliadau hyn yn sail i arolygiadau a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r dull hwn yn ceisio ymgorffori diwylliant gonestrwydd a didwylledd ar draws y gwasanaeth – nid dim ond pan aiff pethau o chwith.

Yn ogystal, mae nifer o ofynion eraill yn Rheoliadau 2017 sy'n cefnogi'r ddyletswydd, fel:

- cael systemau ar waith i gofnodi digwyddiadau (a chwynion)
- cadw cofnodion a gofyniad i ddogfennu digwyddiadau a fyddai'n cael eu hystyried yn ddigwyddiadau niwed; a
- bod gwelliant parhaus yn cael ei ddangos trwy adolygiadau ansawdd gofal, sy'n cael eu cynnal o leiaf bob chwe mis.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 11 Gorffennaf, awgrymwyd bod dyletswydd gonestrwydd mewn gofal cymdeithasol yn fwy penodol na'r ddyletswydd a gynigir yn y Bil. Mae'r dull gweithredu ar waith ym maes gofal cymdeithasol yn cyd-fynd yn fras â darpariaethau gonestrwydd y Bil, yn yr ystyr ei fod yn darparu gofynion sefydliadol ar y darparwr gwasanaeth a/neu'r unigolyn cyfrifol – gan ddangos bod gan ddarparwyr gwasanaeth ddiwylliant o welliant trwy ddadansoddiad parhaus o ddigwyddiadau, digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion.

### Gofal trawsffiniol:

O ran gofal trawsffiniol, rydym wedi ystyried cymhwyso dyletswydd gonestrwydd yn y Bil ar gleifion o Gymru sy'n derbyn gofal iechyd yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.

Pan fydd preswlydd o Gymru yn derbyn gofal gan wasanaeth yn Lloegr, bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn Lloegr yn berthnasol yn hytrach na'r ddyletswydd yng Nghymru. Bydd y trefniant hwn yn ddwyochrog i drigolion Lloegr sy'n cyrchu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

Rhaid i'r system weithredu fel hyn neu byddai gennym ddarparwyr yn ddarostyngedig i ddyletswyddau Lloegr a Chymru pan fydd claf o un wlad yn derbyn triniaeth yn y llall, gan arwain at ddyblygu diangen.

### **Darpariaeth Bil Dyletswydd Gonestrwydd**

Mae'r ddyletswydd yn y Bil yn cael ei gosod ar gyrff y GIG a darparwyr gofal sylfaenol ar lefel sefydliadol ac nid ar staff gofal iechyd unigol. Fodd bynnag, yn ymarferol, er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd gyfreithiol yn cael ei chyflawni, rhaid i sefydliadau sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys rheolwyr, clinigwyr a gweinyddwyr, yn gweithredu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r ddyletswydd. Bydd angen i bob sefydliad fod â pholisi cynhwysfawr ar waith sy'n nodi sut y bydd yn gweithredu ac yn cydymffurfio â'r ddyletswydd a sut y bydd yn disgwyl ac yn cefnogi ei staff i wneud hynny.

Bydd dyletswydd sefydliadol yn sicrhau ei bod yn flaenoriaeth, ar bob lefel o fewn sefydliad, i gynorthwyo i gyflawni'r newid ymddygiad sy'n angenrheidiol i roi'r ddyletswydd ar waith yn llwyddiannus. Bydd hyn yn cefnogi amgylchedd, nid yn unig lle mae gweithwyr proffesiynol yn gweithredu mewn modd agored a gonest ond lle mae sefydliadau yn mynd ati i annog yr ymddygiad hwn ac yn barod i'w dderbyn.

Er bod moeseg a rhwymedigaethau proffesiynol yn hanfodol, nid ydynt yn ddigonol ynddynt eu hunain i sicrhau diwylliant o onestrwydd ledled sefydliad a, beth bynnag, nid yw'r holl staff yn rhwym i ddyletswyddau proffesiynol o'r fath. Mae gosod y ddyletswydd ar lefel sefydliadol yn helpu i greu'r amodau i'r holl staff – clinigol a gweinyddol – weithredu a chael eu cefnogi i weithredu mewn modd agored a gonest.

Fel y nodwyd uchod, mae'r dulliau sydd ar waith mewn perthynas â dyletswydd gonestrwydd yn Lloegr a'r Alban, ac ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn cyd-fynd â bwriad y Bil yn yr ystyr eu bod i gyd yn ceisio cyflawni dull sefydliadol o ymdrin â gonestrwydd.

Yn ogystal, mae galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r weithdrefn gonestrwydd mewn rheoliadau yn cadw digon o hyblygrwydd i sicrhau bod y weithdrefn yn ymarferol ac yn gallu ymateb i unrhyw angen posibl i addasu, o ganlyniad i adborth a dysgu gan y GIG a defnyddwyr gwasanaeth, heb yr angen i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, efallai y bydd angen newid y manylion mewn ymateb i newidiadau mewn modelau gofal ac arferion gwaith, i ddysgu o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth ac i ystyried sut mae'r weithdrefn yn gweithredu mewn achosion mwy cymhleth.

Mae'r trothwy niwed y mae angen ei fodloni cyn y bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno wedi'i gosod yn Adran 3(4) o'r Bil, fel niwed sy'n 'fwy nag ychydig'. Fodd bynnag, ystyrir, er mwyn diffinio hyn mewn ffordd gynhwysfawr, sy'n syml i'w gymhwyso i wahanol fathau o ofal ac yn cael ei gyflwyno mewn ffordd y mae clinigwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn ei deall, y bydd y disgrifiad o hyn yn cael sylw mewn canllawiau statudol, y darperir ar eu cyfer yn Adran 10 y Bil. Sefydli'r gweithgor i ddatblygu'r canllawiau, a fydd yn cynnwys clinigwyr, gweithwyr proffesiynol eraill a chynrychiolwyr lleyg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ei bod yn amlwg i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaeth pa lefel o niwed sy'n gorfod digwydd cyn i'r ddyletswydd gonestrwydd gael ei sbarduno.

Mae Lloegr a'r Alban wedi cynhyrchu canllawiau i gefnogi eu deddfwriaeth dyletswydd gonestrwydd. O'i gymharu â Lloegr, cymerodd yr Alban ddull llawer mwy rhagnodol a oedd yn cynnwys astudiaethau achos. Rydym wedi dysgu o gynnwys yr enghreifftiau ymarferol yma a byddwn yn ei ddefnyddio fel model i lunio'r canllawiau arfaethedig yng Nghymru fel bod ein disgwyliadau mewn gwahanol amgylchiadau yn cael eu deall yn glir.

Mae amlinelliad drafft o'r canllawiau statudol arfaethedig i gefnogi dyletswydd gonestrwydd wedi'i gynhyrchu ac mae wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

**Newid dull wrth benodi aelodau bwrdd****Y sefyllfa bresennol o ran Cynghorau lechyd Cymuned****Aelodau Bwrdd Cynghorau lechyd Cymuned**

Mae'r Bwrdd cenedlaethol yn cynnwys 12 o aelodau.

- Caiff y cadeirydd a dau o aelodau annibynnol eu penodi gan Weinidogion Cymru trwy broses penodiadau cyhoeddus.
- Mae saith aelod yn rai sydd wedi'u hethol fel cadeiryddion pob un o'r saith Cyngor lechyd Cymuned rhanbarthol.<sup>4</sup>; a
- Dau aelod staff y Cynghorau lechyd Cymuned, a gyflogir gan Fwrdd lechyd Addysgu Powys. Rhain yw Prif Weithredwr Bwrdd y Cynghorau lechyd Cymuned ac aelod staff y Cynghorau lechyd Cymuned a gaiff ei benodi gan gyd-aelodau staff y Cynghorau lechyd Cymuned.

**Aelodau gwirfoddol**

Dan drefniadau presennol Cynghorau lechyd Cymuned, mae Gweinidogion Cymru yn penodi 50% o aelodau gwirfoddol trwy broses penodiadau cyhoeddus, caiff 25% eu penodi gan awdurdodau lleol a 25% gan fudiadau gwirfoddol. Cânt eu penodi am gyfnod o hyd at bedair blynedd a gallant wasanaethau am hyd at ddau dymor. Ymhellach, gall Cynghorau lechyd Cymuned benodi aelodau cyfetholedig (nad oes ganddynt hawliau i bleidleisio) am gyfnod o hyd at ddwy flynedd.

Mae'n fwyfwy anodd denu aelodau gwirfoddol erbyn hyn. Ar ôl siarad ag ymgeiswyr, ac yn sgil trafodaethau gyda'r Cynghorau lechyd Cymuned, gwyddom fod nifer o bobl o'r farn fod y broses penodiadau cyhoeddus – lle y mae angen rhoi proses ymgeisio ffurfiol ar waith a mynd trwy gyfweiliad gyda phanel – yn broses annymunol, ac mae hyn yn rhwystro nifer o ddarpar ymgeiswyr abl rhag ymgeisio.

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cael trafferth recriwtio digon o aelodau i lenwi swyddi gwag a benodir gan Weinidogion Cymru i Gynghorau lechyd Cymuned. Yn 2017/18 llwyddasom i benodi 43 o aelodau, sef nifer annigonol ar gyfer llenwi'r 55 swydd wag ledled Cymru. Yn ein proses recriwtio ar gyfer 2019, dim ond 8 o ymgeiswyr a gawsom ar gyfer 34 o swyddi gwag, sy'n golygu ein bod wedi gorfod ymestyn y cyfnod ymgeisio am bedair wythnos arall. Dim ond 13 o ymgeiswyr ychwanegol a gafwyd ar ôl ymestyn yr amser. Mae'r nifer fechan o ymgeiswyr yn parhau er gwaethaf buddsoddi cyllid mewn hysbysebion yn y cyfryngau print ac ar-lein, ac er gwaethaf ymdrechion ar y cyd gan Gynghorau lechyd Cymuned a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r swyddi gwag ac annog ceisiadau.

**Cynigion y Bil****Bwrdd Corff Llais y Dinesydd**

<sup>4</sup> Yn unol â rheoliad 15 yn Rheoliadau Cynghorau lechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010, mae'n ofynnol i aelodau Gyngor lechyd Cymuned ethol un o'u plith i fod yn gadeirydd am gyfnod o hyd at dair blynedd.

Mae'r Bil yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru benodi aelodau Bwrdd Corff Llais y Dinesydd. Mynegwyd pryderon yn y Pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn y gallai'r dull hwn roi annibyniaeth y corff newydd yn y fantol. Fodd bynnag, mae'r cynsail ar gyfer Gweinidogion yn penodi pobl i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru wedi hen ennill ei blwyf – er enghraifft, mae Gweinidogion Cymru yn penodi aelodau i Fyrddau Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymwysterau Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ymhellach, bydd yr holl benodiadau'n cael eu llywodraethu gan y Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl benodiadau gan Weinidogion i gyrrff cyhoeddus fod ar ffurf cystadleuaeth agored a theg, gan benodi ar sail haeddiant. Mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw o ran penodi i'r Corff yn gorwedd gyda Gweinidogion Cymru, sy'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Paragraff 2 Atodlen 1 y Bil yn llywodraethu penodiadau ac yn amodi y dylai'r Bwrdd gynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac o leiaf 7 (ond dim mwy na 9) o aelodau i gyd.

### Aelodau gwirfoddol Corff Llais y Dinesydd

Fel corff corfforaethol annibynnol, bydd gan y Corff newydd y pŵer i benodi ei aelodau gwirfoddol ei hun. Ni fydd yr aelodau a benodir gan y Corff yn gorfod mynd trwy'r broses penodiadau cyhoeddus, ac ni fydd terfynau'n cael eu gosod ar y cyfnod y gall person wasanaethau fel aelod. Felly, gyda'r Corff newydd rydym yn cael gwared â rhywfaint o'r rhwystrau presennol – gwirioneddol ac ymddangosiadol – mewn perthynas ag aelodaeth. Cafodd hyn ei groesawu gan y Cynghorau Iechyd Cymuned presennol.

Eisoes, rydym wedi siarad â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac maent wedi cytuno i roi inni fantais eu profiad a rhoi help a chymorth inni i ddatblygu model gwirfoddoli ar gyfer y Corff newydd – model sy'n gynaliadwy, [yn adeiladu ar rwydweithiau presennol] ac yn helpu i ddenu gwirfoddolwyr sy'n gynrychiadol o ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Ymhellach, rydym wedi siarad gyda'r Cyngor Cleifion a Chleientiaid yng Ngogledd Iwerddon, sef corff sy'n arfer swyddogaethau tebyg i'r rhai y bwriedir i Gorff Llais y Dinesydd feddu arnynt. Maent wedi sefydlu model aelodaeth llwyddiannus a all fod yn gysail buddiol. Mae eu model yn gweithredu ar sawl lefel a cheir aelodaeth ar-lein fawr sy'n cefnogi galwadau am dystiolaeth ac yn llenwi ymgynghoriadau ac arolygon ac ati, ynghyd ag aelodau sydd yno yn y cnawd ac yn cymryd rhan yn weithredol yng ngwaith y Corff. Mae cael sylfaen aelodaeth gynrychiadol, ymrwymedig a gweithredol yn hanfodol o safbwynt cefnogi gwaith y Corff newydd ac, fel y nodir uchod, rhoddir ystyriaeth eisoes, wrth baratoi ar gyfer sefydlu'r Corff, i'r modd y gallwn sicrhau o'r cychwyn cyntaf fod y model aelodaeth yn ateb y gofyn.

Fel y nodir ym mharagraff 505 y Memorandwm Esboniadol, er mwyn cynorthwyo i sefydlu'r Corff newydd, bwriedir sefydlu Bwrdd Gweithredu. Bydd un o'r ffrydiau gwaith yn gyfrifol am ystyried y model aelodaeth wirfoddol a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cynghorau Iechyd Cymuned presennol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ar ôl eu penodi, uwch-dîm y Corff newydd a rhanddeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â recriwtio aelodau, bydd y grŵp hwn yn ystyried materion fel anghenion hyfforddi gwirfoddolwyr.

**Disgwyliadau ar gyfer rhedeg Corff Llais y Dinesydd**

Mae angen i Gorff Llais y Dinesydd (“y Corff”) wneud cyfraniad allweddol at sicrhau bod llais dinasyddion yn cael ei gynrychioli ym mhob mater sy’n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Bydd angen i’r Corff ymgysylltu a meithrin perthynas adeiladol â phartneriaid yng Nghymru. Mae hynny’n cynnwys aelodau’r cyhoedd, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, awdurdodau iechyd arbennig, awdurdodau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yr arolygiaethau, comisiynwyr statudol, Gofal Cymdeithasol Cymru, y trydydd sector ac eraill i sicrhau bod llais y dinesydd yn cael ei gynrychioli a’i glywed.

Bydd yn arbennig o bwysig i’r Corff ddatblygu cysylltiadau cryf gyda’i bartneriaid er mwyn rhannu gwybodaeth a dysgu o’r canlyniadau sy’n deillio o farn a sylwadau pobl.

Bydd angen i’r Corff weithio gyda, yn hytrach na chymryd lle, y fforymau sydd eisoes yn bodoli i gynrychioli safbwyntiau dinasyddion mewn materion sy’n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, fel Paneli Dinasyddion a sefydlwyd dan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Rhan allweddol o rôl y Corff fydd casglu a chynrychioli barn dinasyddion gyda’r nod o ddarparu gwybodaeth am sylwadau a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau i’r rhai sy’n gyfrifol am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, i’w helpu i lywio gwelliannau a sicrhau canlyniadau gwell.

**Fframwaith cyfreithiol**

- Bydd yn cael ei sefydlu fel Corff corfforaethol, sy’n gallu cyflogi staff a llunio contractau a phrydlesi.
- Cyflwynir ei swyddogaethau ar wyneb y Bil.
- Gweinidogion Cymru fydd yn penodi aelodau’r Bwrdd trwy broses benodi gyhoeddus.
- Mae gan y prif swyddog gweithredol statws swyddog cyfrifyddu. Bydd Gweinidogion Cymru’n nodi cyfrifoldebau’r swyddog cyfrifyddu mewn perthynas â chyfrifon a chyllid y Bwrdd.
- Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru’n gyfrifol am waith archwilio allanol.
- Mae gan y Corff y pŵer i benodi ei aelodau gwirfoddol ei hun, y tu allan i’r broses penodiadau cyhoeddus.

**Llythyr cylch gwaith**

- Fel pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru, bydd gan y Corff lythyr cylch gwaith.
- Bydd y llythyr cylch gwaith yn nodi faint o gyllid gaiff y Corff gan Lywodraeth Cymru.
- Hefyd, bydd y llythyr yn cyflwyno “cyflawniadau allweddol” ar gyfer y Corff o ran, er enghraifft, cyflawni ei swyddogaethau ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, darparu gwasanaethau ar sail genedlaethol a lleol i bobl Cymru; bod yn sefydliad uchelgeisiol sy’n dysgu ac yn cefnogi diwylliant o ddysgu a gwella ymhlith staff ac aelodau ac ati.
- O gofio natur swyddogaethau’r Corff, ac yn sgil y gofyniad ym mharagraff 19 o Atodlen 1 y Bil i’r Corff bennu ei amcanion a’i flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yn

dilyn ymgynghoriad, bydd y llythyr cylch gwaith yn parchu'r angen i'r Corff weithredu'n annibynnol, er enghraifft, gyda'r rhyddid i benderfynu ar ei feysydd ymgysylltu a'i adolygiadau thematig ac ati, ei hun.

### **Cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol**

- Mae Paragraff 19 o Atodlen 1 y Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Corff baratoi cynllun blynyddol sy'n esbonio sut mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Disgwylir i'r Corff roi'r un pwyslais ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wrth gyflawni ei swyddogaethau.
- Rhaid i'r cynllun gynnwys datganiad ar amcanion a blaenoriaethau'r Corff am y flwyddyn.
- Mae dyletswydd ar y Corff i ymgynghori â phwy bynnag y mae'n ei ystyried yn briodol, ynglŷn â'i amcanion a'i flaenoriaethau arfaethedig.
- Dan Baragraff 20 o Atodlen 1, mae'n ofynnol i'r Corff baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro sut y cyflawnodd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad i Weinidogion Cymru a'i gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol fel y gellir craffu ar weithgarwch y Corff.

### **Bwrdd Gweithredu**

- 1 Hydref 2021 yw'r dyddiad targed ar gyfer sefydlu'r Corff newydd.
- Ni fydd unrhyw fwlch rhwng diddymu'r Cynghorau Iechyd Cymuned a sefydlu'r Corff newydd. Mae disgwyliad clir i'r Cynghorau Iechyd Cymuned a'r cyrff Iechyd weithio ar sail "busnes fel arfer" hyd nes caiff y Corff newydd ei sefydlu.
- Bydd Bwrdd Gweithredu'n cael ei sefydlu er mwyn helpu i sefydlu'r Corff newydd. Bydd y grŵp craidd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Addysgu Powys (fel cyflogwr staff Cynghorau Iechyd Cymuned), cynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned presennol a, phan gaiff ei benodi, y Bwrdd a phrif weithredwr y Corff newydd.
- Bydd ffrydiau gwaith unigol yn cael eu sefydlu i ystyried materion fel trosglwyddo staff, swyddfeydd, caffael TG, aelodaeth wirfoddol, llywodraethu ac ati.
- Bydd y grŵp craidd yn cael ei ategu gan bobl sydd ag arbenigedd yn y meysydd a gwmpasir gan ffrydiau gwaith unigol.

### **Lleoliad/swyddfeydd**

- Nid yw'r Bil yn pennu strwythur ar gyfer y Corff.
- Rydym am i'r Corff gael y gallu i benderfynu lle mae angen swyddfeydd, yn seiliedig ar ei asesiad ei hun o'i anghenion.
- Disgwylir i'r Corff gael ei drefnu mewn modd fel y gall gyflawni ei ddyletswyddau ar lefel leol yn ogystal ag ar lefel genedlaethol.
- Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn seilio anghenion a chostau swyddfa'r Corff ar gostau a lleoliad presennol swyddfeydd cynghorau Iechyd Cymuned: deuddeg swyddfa o faint amrywiol ledled Cymru.
- Y farn ar hyn o bryd - a bydd hyn yn destun trafod y Bwrdd Gweithredu - yw bod angen strategaeth swyddfeydd ar y Corff newydd sy'n wahanol i rai'r Cynghorau

lechyd Cymuned. Mae swyddfeydd Cynghorau Iechyd Cymuned wedi'u lleoli ar barciau diwydiannol yn aml, ac nid ydynt yn arbennig o hygyrch i rai sy'n dymuno defnyddio eu gwasanaethau. Wrth symud ymlaen, byddai'n syniad ystyried safleoedd llai yng nghanol trefi ar gyfer swyddfeydd y Bwrdd ac/neu gydleoli swyddfeydd y Corff gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill fel hybiau cymunedol neu lyfrgelloedd. Bydd hyn yn helpu i wneud y Corff yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

### **Perthynas â phartneriaid**

- Bydd angen i'r Corff sefydlu'i hun fel partner allweddol yn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd angen iddo gytuno ar ddulliau o weithio gyda phartneriaid fel arolygiaethau, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Gofal Cymdeithasol Cymru, y Comisiynwyr ac ati.
- Dyma rywbeth y gall Llywodraeth Cymru helpu i'w hwyluso fel rhan o drefniadau'r Bwrdd Gweithredu: cynorthwyo'r Corff i feithrin cysylltiadau â phartneriaid.
- Mae trafodaethau lefel uchel eisoes wedi'u cynnal â'r arolygiaethau (Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru) ac maent yn gefnogol i'r posibilrwydd o greu cytundebau gweithio mewn partneriaeth rhyngddyn nhw a'r Corff newydd. Byddai cytundebau partneriaeth yn cwmpasu materion fel rhannu gwybodaeth ac uwchgyfeirio pryderon.
- Disgwylir i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol fod â threfniadau clir ar waith er mwyn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir iddynt gan y Corff. Byddai angen i gyrff y GIG, er enghraifft, gael systemau clir i sicrhau bod unrhyw adborth am brofiad cleientiaid/ansawdd y gwasanaethau a geir gan y Corff, yn cael eu hadrodd i, a'u hystyried gan, eu Pwyllgorau Ansawdd a Diogelwch.
- Yn seiliedig ar brofiadau'r rhai sy'n rhan o'r Bwrdd Gweithredu, gallai Llywodraeth Cymru baratoi canllawiau er mwyn helpu Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswyddau dan adran 17 o'r Bil i hyrwyddo gweithgareddau'r Corff.
- Mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu cyflwyno rhywfaint o newidiadau deddfwriaethol er mwyn helpu i fframio'r berthynas rhwng y Corff a phartneriaid presennol sy'n gweithio ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol fel un cadarnhaol o bartneriaeth a chydweithio.
  - Bydd gan y Corff statws "partner arall" ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae partneriaid eraill yn golygu unigolion neu gyrff a ystyrir yn ddarparwyr neu gynrychiolwyr pwysig ym maes gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ofyn am gyngor gan eu partneriaid eraill a'u cynnwys yng ngweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn modd ac i'r graddau y mae'r bwrdd yn ei ystyried sy'n briodol. Gall hyn gynnwys gofyn am gyngor gan eu partneriaid neu eu cynnwys yn y gwaith o baratoi, gweithredu a chyflawni cynlluniau llesiant lleol. Felly, bydd y Corff yn gallu gwneud sylwadau ar gynlluniau gweithredu Byrddau Gwasanaethau Lleol o safbwynt iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan ychwanegu mwy o ffocws integredig.



- Sefydli'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i oruchwylio'r trefniadau partneriaeth rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n bodoli i ddarparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth integredig a chynaliadwy. Cynigir diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff sy'n dilyn trefniadau partneriaeth ymgynghori â Chorff Llais y Dinesydd wrth baratoi asesiadau a'r cynlluniau hyn.
- Felly, bydd gan y Corff rôl allweddol yn cefnogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol trwy sicrhau bod asesiadau poblogaeth yn cael eu llywio'n barhaus gan y wybodaeth a gesglir gan y Corff am farn y cyhoedd. I wneud hyn, bydd angen i'r Corff feithrin cysylltiadau â'r Paneli Dinasyddion hefyd, sy'n cefnogi gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

### **Cyngor a chymorth gyda chwynion**

- Bydd y Corff yn gallu darparu cyngor a chymorth gyda chwynion i fwy o bobl na'r Cynghorau Iechyd Cymuned presennol.
- Mae'r rhanddeiliaid y trafodwyd y Bil â nhw, wedi dweud y byddai'n ddefnyddiol pe bai yna ganllawiau i egluro'r canlynol:
  - pa gwynion y bydd y Corff yn gallu cynnig cymorth yn eu cylch;
  - pa gwynion na fydd yn gallu cynnig cymorth yn eu cylch;
  - dan ba amgylchiadau y gallai fod angen i'r Corff gydweithio â darparwyr cyngor a chymorth eraill;
  - beth yw'r trefniadau ar gyfer atgyfeirio pobl at ddewisiadau cyngor a chymorth eraill.

Disgwylir i'r Corff ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd, a holi am safbwyntiau o'r sector gwirfoddol.

### **Aelodaeth**

- Fel Corff corfforaethol, mae'r Corff yn gallu recriwtio ei aelodaeth wirfoddol ei hun, y tu allan i'r broses penodiadau cyhoeddus.
- Mae'n bwysig bod y model aelodaeth ar waith o'r cychwyn cyntaf, gan y bydd angen cymorth gwirfoddolwyr ar y Corff i gyflawni ei swyddogaethau.
- Felly, bwriedir i'r Bwrdd Gweithredu helpu i ddatblygu'r model.
- Mae swyddogion wedi holi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sydd wedi cytuno i helpu i ddatblygu model cynaliadwy gyda'r bwriad o ddenu gwirfoddolwyr sy'n cynrychioli defnyddwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

### **Sylwadau**

- Mae gan y Corff y pŵer i wneud sylwadau i Fwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Awdurdod Lleol am unrhyw fater sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.
- Mae'r gyrff hynny dan rwymedigaeth gyfreithiol i "ystyried" y sylwadau hyn.
- Bydd y ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sylwadau ynghyd â datblygiad mecanweithiau priodol i ystyried gwir sylwedd y sylwadau yn sicrhau bod llais y

dinesydd yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau a'i fod yn cael ei glywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u bod yn gwrando arno.

- Mae hyn yn golygu bod **rhaid** i gyrff sy'n gweithredu dyletswyddau sy'n berthnasol i'r sylwadau roi ystyriaeth i'r sylwadau hynny.
- Disgwyllir i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol feddwl beth yw'r ffordd orau o ystyried pob sylw. Gall hyn gynnwys rhannu sylwadau gyda Phwyllgorau Ansawdd a Diogelwch neu bwyllgorau craffu neu rannu sylwadau perthnasol gyda phartneriaid fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel bod llais y defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ymgorffori'n wirioneddol a'i ystyried gydol y broses gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, gall sylwadau fod yn berthnasol i newidiadau arfaethedig mewn gwasanaeth a gynigir gan gyrff y GIG neu awdurdodau lleol ac mae'n bosibl eu bod hefyd yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r broses cynllunio. Gallent hefyd fod ar ffurf adolygiadau thematig o wasanaethau.
- Disgwyllir i'r Corff beidio gwneud sylwadau ynghylch materion sy'n berthnasol i unigolion y mae modd eu hadnabod o'r sylwadau. Dylid lleisio unrhyw bryderon ynghylch gofal neu driniaeth unigolyn gan ddefnyddio'r weithdrefn gwyno berthnasol.
- Mae'r ddyletswydd ansawdd newydd yn y Bil yn rhoi dyletswydd ar gyrff y GIG i weithredu eu dyletswyddau gyda'r nod o sicrhau gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae ansawdd yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ansawdd mewn perthynas â phrofiad unigolion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd. Mae cysylltiadau clir rhwng y ffordd y gall cyrff y GIG ddangos gwelliannau mewn ansawdd a'r ffordd y maent yn ystyried sylwadau gan y Corff.
- Disgwyllir i'r Corff ymgysylltu â chyrff y GIG ac awdurdodau lleol a datblygu cysylltiadau adeiladol gyda nhw. Bydd ystyried unrhyw sylwadau'n rhan o'r ymgysylltiad cyson a pharhaus gyda'r cyrff hyn. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned wedi galw ar ei gwneud yn orfodol i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol ymateb yn ffurfiol i sylwadau a wneir gan y Corff. Mae swyddogion yng Nghymru wedi cyfarfod â Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned ac maent yn parhau mewn cysylltiad â hwy i drafod hyn ymhellach.

## Ymweld

Y disgwyliad clir yw bydd y Corff yn gallu cael gafael ar ddefnyddwyr gwasanaethau ym man darparu'r gofal, er mwyn cael eu barn am faterion yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Dyma un o ddulliau niferus y Corff newydd o gasglu barn a sylwadau'r cyhoedd.

Mae swyddogion wedi cael trafodaethau adeiladol â Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru dros yr haf i weld sut mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn defnyddio eu pwerau mynediad ar hyn o bryd, a sut y gallem sicrhau bod y Corff yn gallu cael mynediad i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon